Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant
2017 - 2022

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam
Wrexham Family Information Service

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori
3. Yr Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad O Anghenion Lles Lleol
4. Poblogaeth
5. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoliadau
6. Darpariaeth Gofal Plant gan gynnwys Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant â Chymorth Cyflogwyr / Gofal Plant Di-Dreth
   6.1 Gofalwr Plant
   6.2. Meithrinfa Ddydd Llawn
   6.3. Gofal Dydd Sesiynol
   6.4. Crèche
   6.5 Gofal y Tu Allan i'r Ysgol gan gynnwys darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim
   6.6. Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
   6.7. Nanis
7. Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog
8. Gofal Plant ar gyfer Plant Anabl
9. Costau Gofal Plant
10. Deall Anghenion Rhieni / Gofalwyr
11. Addysg Gynnar wedi'i Hariannu
12. Darpariaeth Dechrau'n Deg
13. Cynaliadwyedd
14. Traws Ffiniol
15. Datblygiad a Hyfforddiant y Gweithlu
16. Ymgynghoriad Plant
17. Dadansoddi'r Bylchau
18. Cynllun Gweithredu

1. CYFLWYNIAD

1.1 Prif Ddatganiad

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i sicrhau *cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol*, ofal plant digonol ar gyfer plant rhwng 0 a 15 oed (a rhwng 15 a 17 oed yn achos plant anabl) i fodloni gofynion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio, neu rieni/gofalwyr sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant a fydd yn arwain at waith. Yn ganolog i'r ddyletswydd hon mae'r gofyniad i gwblhau Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADdGP) bob tair blynedd. Amcan yr ADdGP yw nodi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant a nodi camau gweithredu i leihau'r bylchau hyn gan symud tuag at sefyllfa o 'ddigonolrwydd' ar draws y Fwrdeistref Sirol.

O dan Adrannau 22 a 26 Deddf Gofal Plant 2006 rhaid i Awdurdodau Lleol siapio a chefnogi datblygiad darpariaeth gofal plant yn yr ardal leol er mwyn ei wneud yn hyblyg, yn gynaliadwy ac yn ymatebol i ofynion y gymuned. Mae hyn er mwyn cefnogi rhieni i gael mynediad at wasanaethau gofal plant lleol sy'n bodloni eu hanghenion ac anghenion eu plant er mwyn iddynt wneud dewis gwirioneddol ynglŷn â gweithio. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi'r ethos a bwriad y ddyletswydd a osodir arnom drwy'r Ddeddf. Bwriad yr Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant canlynol ar gyfer 2017 yw darparu darlun realistig a chadarn o'r ddarpariaeth gofal plant gyfredol ar draws y Fwrdeistref Sirol, dealltwriaeth o'r galw am ofal plant drwy gyflwyniad o anghenion rhieni a fynegwyd drwy ymgynghori dwys a dadansoddiad o'r bylchau yn y farchnad gofal plant, rhwystrau at fynediad ac anghenion nas diwallir.

Wedi cyflwyno a dadansoddi canfyddiadau'r asesiad hwn, nodir set o feysydd thematig arfaethedig ar gyfer eu datblygu mewn cynllun gweithredu. Bwriad y camau gweithredu hyn yw darparu cyfeiriad a ffocws ar gyfer gwaith yr Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn yn cael ei adolygu'n gyson gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

1.2 Cyd-destun

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i sicrhau *cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol*, ofal plant digonol ar gyfer plant rhwng 0 a 15 oed (a rhwng 15 a 17 oed yn achos plant anabl) i fodloni gofynion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio, neu rieni/gofalwyr sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant a fydd yn arwain at waith.

Yn ganolog i'r ddyletswydd hon mae'r angen i gwblhau Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADdGP) bob pum mlynedd, sy'n asesu'r ddarpariaeth, a'r galw am ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol ac yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Mae argymhellion o'r ADdGP ac adolygiadau blynyddol dilynol yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynllun gweithredu, sy'n nodi'r camau gweithredu y bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn eu cymryd er mwyn cyflawni eu goblygiadau o ran rheoli marchnad. Amcan yr ADdGP yw nodi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant a nodi camau gweithredu er mwyn lleihau'r bylchau hyn gan symud tuag at sefyllfa o 'ddigonolrwydd' ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae argymhellion gan gynllun gweithredu'r Asesiad yn cael eu monitro gan Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ac mae'r Asesiad a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu harolygu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Y Pennaeth Gwasanaeth sy'n cadeirio Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac mae croestoriad eang o bartneriaid sydd wedi ymrwymo i gefnogi a gwella gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn Wrecsam yn cael eu cynrychioli ar y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn eistedd fel grŵp partneriaeth o dan PDB2 ac mae ganddi'r cyfrifoldebau perthnasol canlynol y cytunwyd arnynt:

> Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn nodi fod Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn gyfrifol am *"sicrhau cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 22 ac adran 26 y Ddeddf Gofal Plan er mwyn sicrhau digon o ddarpariaeth ac asesu digonolrwydd gofal plant yn ardal yr Awdurdod Lleol yn flynyddol"* (Cylchlythyr Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru 013/2008 t6)
>
> Mae Canllawiau Deddf Gofal Plant 2006 yn nodi y dylai'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc "*ymyrryd yn strategol yn y farchnad gofal plant er mwyn sicrhau fod, cyn belled ag sy'n bosib, gofal plant ar gael i'r teuluoedd hynny sydd ei angen"* (Cylchlythyr Canllawiau Ebrill 2008 013/2008 t47).

Mae Cynllun Gweithredu'r ADdGP yn cyfrannu tuag at Gynllun Unigol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam '*Ein Cynllun Ar Gyfer Wrecsam* 2013 - 2024' ac o fewn Blaenoriaeth 2: *Gwneud Wrecsam yn lle gydag economi gref, wydn a chyfrifol*, mae ymrwymiad tuag at sicrhau fod gofal plant fforddiadwy, o safon, ar gael i rieni. Gweler http://www.wrexhamlsb.org. Cefnogir Ein Cynllun Ar Gyfer Wrecsam gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, sy'n datblygu Cynllun Lles Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd i'w gyhoeddi fis Ebrill 2018. Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae ymgynghori dwys wedi ei gynnal er mwyn adeiladu gweledigaeth o'r 'Wrecsam yr Ydym Ni Eisiau' o dan y ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar hyn o bryd mae gofal plant yn cael ei gwmpasu o fewn thema allweddol 'Ffyniannus'.

Mae gan yr ADdGP gysylltiadau â Chynllun y Cyngor - Ein Cynllun ar gyfer Wrecsam, Cynllun Lles Lleol, Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu ar gyfer 2013 – 2028, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2017 – 2020) Asesiad o Anghenion Poblogaeth Ranbarthol, Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cynllun Strategol Dechrau'n Deg.

Mae ymrwymiad parhaus gan Lywodraeth Cymru drwy *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* a gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i sicrhau fod gan rieni fynediad at ddigon o ofal plant o safon uchel yn gydnabyddiaeth o'r rôl mae gofal plant yn ei chwarae wrth waredu tlodi, drwy alluogi rhieni a gofalwyr i ddychwelyd i weithio, i hyfforddi neu i astudio a chefnogi twf yr economi yn ogystal â darparu cyfleoedd i blant i gyrraedd eu llawn potensial a rhoi'r cychwyn gorau posib iddynt mewn bywyd.

Mae gweithgareddau datblygu gofal plant a phrosiectau mynediad at ofal plant fforddiadwy wedi'u sefydlu yng nghynlluniau darparu Teuluoedd Yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Wrecsam.

1.3 Methodoleg

Bydd yr Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cynnwys y cyfnod rhwng 2017 a 2022 ac yn cael ei gefnogi gan Adroddiadau Cynnydd blynyddol. Bydd yr Asesiad Digonolrwydd llawn hwn yn darparu trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn ADdGP 2014, yn cyflwyno diweddariad o ddata gofal plant newydd, ac yn adlewyrchu'r data hwn mewn arolwg galw a bylchau a ddatgelwyd.

Mae dadansoddiad o ddata demograffig ac economaidd-gymdeithasol eilaidd wedi ei gynnal er mwyn rhoi mynegiant o'r ffactorau proffil sy'n effeithio galw a'r gallu i dalu am ofal plant yn Wrecsam. Mae ffynonellau data a dyddiadau casgliadau wedi eu cydnabod drwy'r adroddiad hwn a lle bo'n bosib defnyddiwyd y wybodaeth fwyaf diweddar oedd ar gael. Pan nad oes ffynhonnell ddata ddiweddar ar gael a bod ffynonellau hŷn wedi eu defnyddio, mae cyfyngiadau defnyddio'r data hwn wedi eu hystyried ac wedi eu hategu gan ddangosyddion procsi eraill lle bo'n bosib. Fel yr asesiadau digonolrwydd blaenorol, mae'r data wedi ei gyflwyno yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol sef awdurdod lleol (1 ardal) a lefel ward (47 ardal), fodd bynnag eleni, yn unol â'r Asesiad O Anghenion Lles Lleol, mae'r data hefyd wedi ei goladu i Ardaloedd Cynllunio Cymunedol fel y nodir yn y map isod. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is wedi eu defnyddio lle nad yw data lefel ward ar gael. Mae data lefel ward wedi ei ddewis yn benodol er mwyn galluogi dadansoddiad o'r sefyllfa gofal plant mewn ardaloedd lleol ac i alluogi datblygu gofal plant a fyddai'n cwrdd anghenion pob ardal fach yn benodol a gan gydnabod fod trigolion yn fwy tebygol o nodi eu ward eu hunain na'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is.

Am y tro cyntaf mae darparwyr gofal plant wedi cyflwyno data am eu darpariaeth yn uniongyrchol i'r ADdGP o dan reoliadau newydd. Hwyluswyd hyn gan y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth y mae'n ofynnol i ddarparwyr eu cwblhau a'u cyflwyno'n electronig i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Cafodd y data hwn wedi ei wneud yn ddienw a'i ddarparu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Hwn yw'r 4ydd Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant i gael ei gyhoeddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam . Ym mhob asesiad blaenorol mae'r dadansoddiad data wedi ei gymryd gan y cofnodion manwl a chyfredol sy'n cael eu cadw gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam.

Bydd y ddwy ffynhonnell ddata yn cael eu cyflwyno drwy gydol yr asesiad hwn, er mwyn hysbysu anghenion darparu gofal plant yr asesiad hwn. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo'r broses o gynllunio'n strategol ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd nesaf fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, bydd yr asesiad hwn yn dwyn casgliadau o'r dadansoddiad a gymerwyd o set ddata gynradd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Mae blaenoriaeth wedi ei roi i'r data cynradd hwn dros ddefnyddio data a gasglwyd drwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth er mwyn sicrhau fod y dadansoddiad yn cynrychioli patrwm o un flwyddyn i'r llall. Yng nghyd-destun yr asesiad hwn, nodwyd fod y set ddata a ddarparwyd gan y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn llai dibynadwy gan ei fod yn cynrychioli ciplun mewn amser ac yn ddarlun unigol. Cydnabyddir y gallai'r data o bosib fod yn hen, o ystyried y cyfnod rhwng casglu'r data ac adeg ei ddadansoddi, ond yn bwysicach nid oes modd ei gymharu dros amser. Wedi trafod gyda chynrychiolwyr Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, gwnaethpwyd y penderfyniad mai'r ffynhonnell ddata gynradd ar gyfer yr asesiad hwn fyddai Data Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam gan ddefnyddio data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth i lenwi bylchau (er enghraifft gwybodaeth am swyddi gwag) a darparu ffynhonnell ddata eilaidd fel bo'r angen. Mae'r fethodoleg hon yn golygu y gellir cymharu'n uniongyrchol rhwng ADdGP 2011 a 2014 ac yn darparu

dadansoddiad cymharol gyson a dibynadwy o rymoedd y farchnad sy'n golygu y gall yr Awdurdod Lleol fod yn hyderus yn eu casgliadau fel y nodir yn eu cyfrifoldebau yng Nghanllawiau Statudol Gofal Plant (Gorffennaf 2016).

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'r amrediadau oedran canlynol wedi eu defnyddio; o dan 12 mis, 12 – 18 mis, 19 - 23 mis, 2 oed, 3 oed, 4 oed, 5-7 oed, 8-11 oed, 12 - 14 oed a 15 - 17 oed. Wrth archwilio'r data penodol, mewn rhai achosion mae grwpiau oedran wedi eu cyfuno (e.e. plant 0 - 4 oed yn cynrychioli'r holl blant cyn ysgol).

Mae ymgynghori dwys wedi ei wneud wrth gynhyrchu'r asesiad hwn. Cafodd ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid ei gwblhau drwy nifer o ffynonellau er mwyn adrodd ar lefelau o alw ar gyfer yr asesiad hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cynradd gyda rhieni a gofalwyr drwy arolwg ar Eich Llais Wrecsam a thrwy grwpiau ffocws er mwyn archwilio materion penodol. Ymgynghorwyd â chyflogwyr drwy ddigwyddiadau rhwydweithio, yn ogystal ag ymgynghori gyda fforymau cyflogwyr ar draws mentrau bach yn ogystal â chyflogwyr mawr o Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. Yn ddiweddar ymgysylltwyd â phlant yn Wrecsam mewn darn sylweddol o ymgynghoriad ar gyfer cwblhau Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016. Roedd y dull gweithredu a ddefnyddiwyd gan Dîm Datblygu Chwarae Wrecsam yn gryf a manwl ac o ganlyniad mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wedi cytuno fod canfyddiadau'r ymchwil hwnnw yn gynrychioladol at bwrpas yr asesiad hwn. Ymgynghorwyd gyda theuluoedd o grwpiau penodol o'r gymuned drwy grwpiau ffocws a dargedwyd.

Mae'r ddogfen ADdGP wedi ei rhannu gyda rhanddeiliaid ar gyfer ymgynghori ac mae preswylwyr bwrdeistref sirol Wrecsam wedi eu gwahodd i roi sylwadau ar y Crynodeb Gweithredol gan gynnwys y themâu sydd yn y Cynllun Gweithredu. Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant llawn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn mynd ymlaen drwy broses gorfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu wedi iddo gael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam.

1.4 Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu

Bydd cynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i Lywodraeth Cymru drwy Adroddiad Cynnydd. Bydd yr adroddiad cynnydd yn nodi pa weithgarwch sydd wedi digwydd yn erbyn pob un o'r meysydd blaenoriaeth a pha effaith mae hyn wedi ei gael ar y farchnad gofal plant yn Wrecsam. Bydd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n cwrdd 6 gwaith y flwyddyn, yn monitro'r cynnydd, a bydd y cynllun gweithredu wedi ei ddiweddaru yn cael ei gyflwyno fel bo'r angen o fewn y prosesau monitro ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau y mae'r Asesiad yn bwydo i mewn iddynt.

Mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam yn arwain y ffordd tuag at ddull gweithredu partneriaethol er mwyn cyflawni'r camau a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r ADdGP. Mae cynrychiolwyr Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam yn cynnwys;

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam – yn darparu cymorth i leoliadau gofal plant y trydydd sector
- Gwasanaeth Dechrau'n Deg Wrecsam - yn darparu mewnbwn dysgu a chymorth o safon i'r darparwyr hynny sy'n darparu Gofal Plant Dechrau'n Deg.
- Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam - yn darparu cymorth arbenigol i'r sector gofal plant.

- Gwasanaeth Addysg Gynnar Wrecsam - yn darparu mewnbwn dysgu i'r lleoliadau gofal plant hynny sy'n darparu Addysg Gynnar ac Addysg Meithrin i'n plant 3 a 4 oed
- Sefydliadau Ymbarél - Mudiad Meithrin, Clybiau Plant Cymru, Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru, PACEY Cymru, NDNA
- Tîm Seicoleg Addysg CBSW
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Tîm Datblygu Chwarae CBSW
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

1.5 Heriau

Fel gyda phob asesiad o'r math hwn roedd heriau i'w hwynebu wrth gwblhau'r Asesiad hwn. Nid darn bach o waith yw cynhyrchu dogfen strategol ar gyfer cyfnod o bum mlynedd. Yma yn Wrecsam rydym wedi ceisio cysylltu gyda pheth o'n gwaith strategol arall mewn ymdrech i leihau dyblygu gwaith ac i wella cysondeb. Mae cymaint o ddarnau allweddol o waith yn cael eu gwneud gan Awdurdodau Lleol a'u partneriaid, a sawl un ohonynt yn cydnabod y cysylltiadau sydd i'w gwneud gyda'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ond mae cymhlethdod dwyn y rhain at ei gilydd yn cael ei gymhlethu eto oherwydd amserlenni cyhoeddi gwahanol. Un esiampl o hyn yw bod llawer o'r wybodaeth sydd o fewn yr Asesiad o Anghenion Lles Lleol allan ar ymgynghoriad yn ystod cyfnod ysgrifennu'r ADdGP. Hwn fydd yn hysbysu'r Cynllun Lles Lleol ond ni fydd yn cael ei gyhoeddi hyd nes bydd yr ADdGP wedi ei gwblhau. Yn ogystal, un o'r darnau o waith mwyaf perthnasol sydd wedi ei wneud o fewn yr Awdurdod Lleol yw'r Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gyhoeddwyd flwyddyn o flaen yr ADdGP. Bydd alinio'r dogfennau strategol allweddol hyn yn cynyddu cysondeb y neges a'i gyfeiriad, ac yn y pen draw yn gwella canlyniadau ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Mae ymgynghori gyda rhieni wedi bod yn her benodol wrth ysgrifennu'r asesiad hwn. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddull wedi'i sefydlu o ymgynghori gyda'n trigolion ar ein gwefan Eich Llais Wrecsam. Mae'r gofyn sydd ar Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r holiadur rhieni/ gofalwyr a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r rheoliadau newydd ar gyfer cynhyrchu ADdGP wedi golygu holiadur hirfaith, sy'n golygu taw ychydig o ymateb yn unig a gafwyd, sydd yn ei dro'n golygu na ellir ystyried y data yn ystadegol ddigonol.

Y set ddata a ddarparwyd drwy'r broses Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth fu un o elfennau mwyaf heriol cynhyrchu'r asesiad hwn. Mae'r data wedi ei gyflwyno mewn fformat sydd yn gofyn am lefel afresymol o fformatio er mwyn ei ddadansoddi mewn unrhyw ffordd weddol resymol. Nid yw darparwyr a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi ateb y cwestiynau'n gyson, sy'n golygu fod llawer o atebion yn anghynrychioliadol. Tra cydnabyddir taw'r disgwyliad oedd y byddai'r broses hon o gymorth i gyhoeddi asesiadau a fyddai'n well o'u halinio ar draws Cymru, mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd ac yn bendant yma yn Wrecsam mae'r heriau o ddadansoddi'r data wedi bod yn anoresgynnol sydd wedi golygu canlyniadau annibynadwy. Mae Wrecsam mewn sefyllfa ffortunus gan fod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi darparu data dibynadwy sy'n cwrdd â'r safonau angenrheidiol.

2. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AC YMGYNGHORI

Mae Canllawiau Gofal Plant 2016 yn nodi'r partneriaid hynny y dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori â nhw, fel yr ystyrir yn briodol. Yn ogystal â'r wybodaeth a nodir yn y Fethodoleg ynglŷn ag ymgynghori, dylid ystyried yr isod o safbwynt yr ymgyngoreion angenrheidiol.

- Plant – cynhaliwyd ymgynghoriad dwys am fodlonrwydd plant o'u cyfleoedd i chwarae yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 a chytunwyd fod hyn yn addas ac yn gynrychioladol at bwrpas yr asesiad hwn
- Rhieni a gofalwyr – roedd holiadur manwl ar gael i rieni a gofalwyr drwy Eich Llais Wrecsam. Ymgynghorwyd â rhieni hefyd mewn cyfres o grwpiau ffocws a arweiniwyd gan Dîm Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Ystyriwyd adborth a sylwadau rhieni a gasglwyd o werthusiadau ymholi a gynhaliwyd gan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Mae hyn yn darparu cipolwg pellach o ofynion rhieni, rhwystrau gofal plant a bodlonrwydd rhieni gyda'r dewis o ofal plant sydd ar gael. Rhoddir cyfle i deuluoedd hefyd wneud sylwadau ar Grynodeb Gweithredol yr ADdGP drwy'r broses ymgynghori ffurfiol drwy wefan Cyngor Wrecsam ym mis Ebrill 2017.
- Unigolyn yn cynrychioli plant, rhieni a gofalwyr, gyda diddordeb mewn gofal plant, cyflogwyr lleol (neu'r rheiny sy'n cynrychioli cyflogwyr lleol) - cyfleoedd ymgynghori drwy aelodau Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam, cyhoeddi'r Crynodeb Gweithredol ar gyfer ymgynghori.
- Awdurdodau lleol cyfagos - adroddiad drafft wedi ei gylchredeg ar e-bost ar gyfer ymgynghori. Mae cysylltiadau gwaith positif yn bodoli rhwng awdurdodau cyfagos sy'n cynorthwyo gyda'r broses o ddeall pryderon traws ffiniol
- Ysgolion – bydd adroddiad drafft yn cael ei gylchredeg i Adran Addysg CBSW er mwyn ei rannu gyda Ffederasiwn Penaethiaid Ysgolion Cynradd a Chymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Wrecsam er mwyn ymgynghori
- Cydweithwyr AB – drwy bartneriaid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac ymgynghoriad ar wefan Cyngor Wrecsam

Yn unol ag atodlen 2 Canllawiau Gofal Plant 2016 mae'r canlynol wedi cael cyfle penodol i wneud sylwadau ar yr asesiad drafft llawn ar e-bost: :

- Bwrdd Diogelu Plant
- Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Grŵp Monitro Chwarae - drwy Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith

Mae cefnogaeth sylweddol wedi ei dderbyn wrth ddrafftio'r asesiad hwn gan gynnwys y rheiny sydd wedi eu nodi isod, fodd bynnag nid yw'r rhestr hwn yn debygol o fod yn holl gynhwysol;

- Adrannau Perthnasol yr Awdurdod Lleol – Addysg, Gofal Cymdeithasol Plant, Gwasanaethau Corfforaethol (Tîm PIPS)

- Sefydliadau Ymbarél / Partner - aelodau Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gan gynnwys Clybiau Plant Cymru, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Mudiad Meithrin, Rhwydwaith Lleol NDNA, NDNA Cymru, PACEY Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Bydd Crynodeb Gweithredol yr Asesiad drafft ar gael yn gyhoeddus er mwyn gwneud sylwadau arno ar Wefan CBSW. Penderfynwyd cyhoeddi'r Crynodeb Gweithredol yn unig gan fod yr Asesiad llawn yn hir ac yn cynnwys lefelau sylweddol o fanylder dadansoddol. Bydd yr Asesiad llawn ar gael ar gais i unrhyw un sydd â diddordeb ac a hoffai wneud sylwadau arno.

3. Yr Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad O Anghenion Lles Lleol

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam ar hyn o bryd yn ymgynghori ar yr Asesiad O Anghenion Lles Lleol drafft. Mae'r ymgynghoriad wedi bod ar agor ers mis Rhagfyr 2016. At bwrpas alinio a chysondeb, ble bo'n bosib ac yn briodol mae'r Asesiad O Anghenion Lles Lleol wedi ei ddefnyddio fel ffynhonnell ddata ac mae'r wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn y ddogfen ymgynghori yn cael ei ailddefnyddio o fewn yr asesiad hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ddemograffeg, er enghraifft, wedi ei ddefnyddio o fewn yr asesiad hwn.

Mae Asesiad O Anghenion Lles Lleol Drafft Wrecsam wedi nodi'r dyheadau canlynol sy'n berthnasol i'r asesiad hwn:

- **Nod lles 1 – Ffyniannus**

Mae Ffyniannus yn golygu cael Bwrdeistref Sirol sy'n gymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur; ac *sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith addas.*

Thema Allweddol Ffyniannus 1 - Cyflawniad yn yr ysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach / sgiliau cyflogadwyedd / sgiliau byw
Dau o themâu allweddol Strategaeth blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru (cyn genedigaeth tan yn saith oed) yw darparu addysg gynnar a gofal plant safonol, a darparu addysg gynradd effeithiol. Mae darparu gofal plant priodol yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion hyn, yn arbennig yn y blynyddoedd cyn-ysgol. Mae hefyd yn helpu rhieni, drwy ddarparu cyngor a chyfarwyddyd drwy arddangos sgiliau gofal plant ymarferol, a drwy gynnig y gefnogaeth gofal plant sydd ei angen i ganiatáu rhieni i fanteisio ar gyfleoedd gwaith.

Y canlyniad pwysicaf ar gyfer unrhyw ysgol yw rhoi gwybodaeth a sgiliau i gymaint o ddisgyblion â phosib er mwyn iddynt ffynnu yng nghyfnodau hwyrach bywyd, gan gynnwys darparu cymwysterau ar gyfer addysg barhaus a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae hefyd angen iddynt ystyried y dulliau eraill y mae angen iddynt addysgu a meithrin y plant yn eu gofal, gan gynnwys drwy ddatblygiad personol a dysgu sgiliau bywyd.

Mae'n amlwg gweld y bydd y gwaith a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r ADdGP yn cyfrannu tuag at gyflawni'r dyheadau a nodir yn Asesiad o Anghenion Lles Lleol Wrecsam a'r cyfraniad y bydd partneriaid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, rhanddeiliaid ehangach a'r lleoliadau gofal plant eu hunain yn eu gwneud tuag at gefnogi Lles trigolion Wrecsam.

O safbwynt adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu, bydd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r peirianwaith adrodd o fewn yr Awdurdod Lleol yn cael eu defnyddio i gytuno ar amserlen adrodd gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Er mwyn gwella cysondeb bydd yr ADdGP, pan fo'n addas, yn cyfeirio at ac yn darparu tystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r tair ardal cynllunio cymunedol a ddefnyddir yn Asesiad o Anghenion Lles Leol Wrecsam a nodir yn y map ar y dudalen nesaf.

4. POBLOGAETH BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

4.1

Mae nifer o gyflwyniadau gwahanol o broffil demograffig Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Asesiad O Anghenion Lles Lleol yn darparu darlun yn seiliedig ar Ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad a'r Cynllun Datblygu lleol: Mae Papur Dewisiadau a Ffefrir yn defnyddio data mwy diweddar o 2014 ac yn cyflwyno darlun defnyddiol o ffactorau sy'n effeithio ar, a'r patrymau disgwyliedig ar gyfer twf poblogaeth. Cyflwynir cyfuniad o'r ffynonellau data hyn isod er mwyn rhoi trosolwg o'r ffactor demograffig sy'n debygol o gael effaith ar y farchnad gofal plant dros gyfnod yr asesiad hwn.

Y ffynhonnell ddata mwyaf diweddar sydd ar gael ar gyfer data poblogaeth yw'r amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn gan Swyddfa'r Ystadegau Gwladol. Mae'n darparu data a ryddhawyd yn Hydref 2016 sy'n berthnasol i 2015. Mae'r set ddata yma yn nodi taw 136,000 oedd poblogaeth Wrecsam yn 2015 sy'n cynrychioli gostyngiad bychan yn y boblogaeth ers 2014. Mae data cyfradd genedigaethau yn dangos fod cyfradd genedigaethau Wrecsam yn parhau'n weddol sefydlog gyda rhwng 1660 a 1750 o enedigaethau dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2008 - 2013 (Ystadegau Cymru 2015). Mae data Genedigaethau Byw Swyddfa'r Ystadegau Gwladol ar gyfer 2015 (y ffynhonnell fwyaf diweddar) yn dangos fod 1382 o enedigaethau byw rhwng 2014 a 2015 a rhwng 2015 a 2016 roedd 1499 o enedigaethau byw, sy'n dangos cynnydd bach o un flwyddyn i'r llall ers 2013.

Mae amcangyfrifon poblogaeth NOMIS yn adrodd bod 68,100 o drigolion Wrecsam yn ddynion, a 68,500 yn fenywod, gyda 85,000 yn disgyn i mewn i'r braced oedran gweithio o 16-64 oed yn 2015, sy'n ostyngiad bychan o ffigyrau 2014. Yn fwy diddorol, mae'r nifer o bobl yr ystyrir sy'n economaidd weithgar wedi cynyddu'n sylweddol o 67,200 i 70,900 neu o 76.1% i 80.2% o'r boblogaeth sydd mewn oedran gweithio (NOMIS 2016).

Heb unrhyw ffynonellau data ar gael i roi'r ffigyrau diweddaraf weithiau mae'n ddefnyddiol i gymryd tueddiadau a'u defnyddio i roi rhagamcanion. Er y cydnabyddir mai cynrychioliadol yn unig o dueddiadau ystadegol allosodiadol yw'r rhain, a'u bod yn amlach na pheidio yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae'r sefyllfa hon yn helpu i osod y cyd-destun ar gyfer y papur hwn. Y ffigurau rhagamcanol ar gyfer poblogaeth Wrecsam yn 2015 yw 140,197, gyda 37% o'r rhain yn 0-15 oed (ffigurau rhagamcanol yn seiliedig ar ddata cyfrifiad 2011).

Mae papur sefyllfa'r CDLL yn awgrymu y byddai poblogaeth Wrecsam yn tyfu'n naturiol heb unrhyw fewnfudo. Mae mwy o enedigaethau na marwolaethau bob blwyddyn yn y Fwrdeistref Sirol (cyfartaledd o tua +420 y flwyddyn dros y pum mlynedd ddiwethaf). Mudo yw prif sbardun twf poblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Arhosodd mudo net i Wrecsam yn uchel hyd yn oed yn ystod y dirywiad economaidd a welwyd ar ôl 2007/08, yn groes i dueddiadau rhanbarthol. Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi gweld gostyngiad yn y lefelau mudo, fodd bynnag. Yr ymfudiad net cyfartalog deng mlynedd hyd at ganol 2013 oedd tua 630 y flwyddyn, o'i gymharu â 690 ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd a ddefnyddir yn rhagamcan tueddiad mudo 10 mlynedd Llywodraeth Cymru. Mae mudo yn elfen gyfnewidiol iawn o newid ac mae'n anodd ei ragweld.



Mae'r data mwyaf diweddar y nifer o blant yn Wrecsam yn parhau i gael ei ddarparu gan Gyfrifiad 2011. Wedi ei rannu fesul grŵp oedran fel y'i diffinnir gan y Cyfrifiad, mae'r data fel a ganlyn;

Oed	*0 hyd at*	*5 hyd at*	*10 hyd at*	*15 hyd*

	4	*9*	*14*	*at 17*
Nifer	8,829	7,717	7,736	4,855

Yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is gyda'r mwyaf o blant 0 – 15 oed yn Wrecsam (canol 2014):

Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is	**Nifer**
Plas Madoc, Wrecsam	678
Whitegate 1	637
Brymbo 1	635
Wynnstay	628
Pant	565

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Data o Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (2016) yn darparu dadansoddiad defnyddiol o'r niferoedd o blant a lle maent yn preswylio:

- Mae 8829 o blant rhwng 0 a 4 oed yn byw ar draws y fwrdeistref sirol, gyda'r nifer uchaf o'r plant o'r oedran hyn wedi eu lleoli yn Queensway, Dwyrain a De Gwersyllt, Ponciau, Brymbo a Llai.
- Mae 7617 o blant rhwng 5 a 9 oed yn byw ar draws y fwrdeistref sirol, gyda'r nifer uchaf o'r plant o'r oedran hyn wedi eu lleoli yn Nwyrain a De Gwersyllt, Brymbo, Cefn, Llai a Choedpoeth.
- Mae 7736 o blant rhwng 10 ac 14 oed yn byw ar draws y fwrdeistref sirol, gyda'r nifer uchaf o'r plant o'r oedran hyn wedi eu lleoli yn Nwyrain a De Gwersyllt, Llai, Coedpoeth, Holt a Phonciau.

4.2 Gweithgarwch Economaidd

Mae'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru wedi gweld gwelliant uwch na gweddill Cymru ers 2001. Mae'r gyfradd cyflogaeth gyfartalog yng Ngogledd Cymru (71%) yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig (69%), fodd bynnag mae Wrecsam yn parhau yn uwch na'r ddau gyfartaledd hyn ar 73% (ffynhonnell Ystadegau Cymru 2015)

Rhoddir lefelau o anweithgarwch economaidd o amcangyfrif poblogaeth NOMIS fel cyfanswm o 17,000 (neu 19.8%) o anweithgarwch economaidd rhwng Hydref 2014 a Medi 2015 sy'n is na'r ffigwr Cymru gyfan neu 24.9% sy'n awgrymu bod y nifer o bobl sy'n anweithredol economaidd yn Wrecsam yn parhau i ostwng o dan ffigyrau Cymru gyfan. Mae hyn wedi ei wneud o 2,4000 o fyfyrwyr (lawr o 4,600 yn 2014), 4,200 yn edrych ar ôl y teulu / cartref (lawr o 4,700), 4,700 (lawr o 5,400) o salwch hir dymor a 4,700 (lawr ychydig o 4,900) sydd wedi ymddeol neu wedi eu categoreiddio fel arall. Mae'r ffynhonnell

ddata hon hefyd yn awgrymu bod 4,900 o'r bobl hyn sy'n economaidd anweithgar eisiau gwaith. Mae'r data yn dangos bod twf parhaus posibl ar gyfer y farchnad gofal plant yn Wrecsam ochr yn ochr â'r angen parhaus am wasanaethau cymorth i'r rhai sydd am ddychwelyd i waith neu hyfforddiant.

Mae'r data gan NOMIS hefyd yn rhoi darlun defnyddiol o'r nifer o bobl sy'n hawlio budd-dal o fewn ardal yr awdurdod lleol. Mae'r data yn nodi mai'r cyfanswm o bobl oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ym mis Rhagfyr 2015 oedd 1,231 (lawr o 2,014 yn 2014) sy'n cynrychioli 1.4% o'r boblogaeth. Mae'r data yn rhoi mwy o wybodaeth am y boblogaeth oedran gweithio yn Wrecsam gyda'r tabl isod yn dangos y nifer o hawlwyr budd-dal allan o waith:

Grŵp cleient oedran gweithio – prif hawlwyr budd-dal (Mai 2015)				
	Wrecsam (niferoedd)	**Wrecsam (%)**	**Cymru (%)**	**Prydain Fawr (%)**
Cyfanswm sy'n hawlio	12,240	14.4	15.8	12.2
Yn ôl grŵp ystadegol				
Ceiswyr gwaith	1,550	1.8	2.2	1.7
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a budd-daliadau analluogrwydd	6,200	7.3	8.5	6.3
Rhieni sengl	1,120	1.3	1.3	1.1
Gofalwyr	1,910	2.3	2.0	1.5
Eraill ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm	230	0.3	0.3	0.3
Anabl	1,070	1.3	1.2	1.1
Mewn profedigaeth	150	0.2	0.2	0.2
Prif fudd-daliadau allan o waith†	9,110	10.7	12.4	9.4

Ffynhonnell: Hawlwyr budd-dal DWP - grŵp cleientiaid oedran gweithio (2015)

4.3 Data Enillion

Mae gwybodaeth fanwl am enillion o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth NOMIS (2015) yn awgrymu, er bod enillion cyfartalog Wrecsam ar gyfer gweithwyr llawn amser ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn cynrychioli cynnydd bach ers 2014, mae'n dal yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar draws Prydain Fawr, gyda dynion yn parhau i gael eu talu yn uwch na menywod.

Enillion yn ôl preswylfa (2015)			
	Wrecsam (punnoedd)	**Cymru (punnoedd)**	**Prydain Fawr (punnoedd)**
Tâl Wythnosol Gros			
Gweithwyr llawn amser	487.6	484.4	529.6
Dynion sy'n gweithio llawn amser	517.5	517.4	570.4

Menywod sy'n gweithio llawn amser	446.2	431.1	471.6
Tâl fesul awr - heb gynnwys goramser			
Gweithwyr llawn amser	12.21	12.26	13.33
Dynion sy'n gweithio llawn amser	12.44	12.66	13.93
Menywod sy'n gweithio llawn amser	11.97	11.51	12.57

Ffynhonnell: NOMIS 2016

4.4 Lefelau Amddifadedd

Gan ddefnyddio Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru, mae gan Wrecsam ychydig llai o ardaloedd o dlodi uchel na chyfartaledd Cymru, fodd bynnag mae rhai ardaloedd yn Wrecsam yn sgorio'n uchel yn y mynegeion amddifadedd lluosog, yn enwedig Queensway 1, Wynnstay, Plas Madoc, Queensway 2 a Chartrefle 2 (Malc, 2014)

Mae'r data Malc uchod yn cyfateb â Data Cyllid a Thollau EM (2011), sydd hefyd yn dangos bod y gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn teuluoedd di-waith neu mewn teuluoedd ar incwm isel yn dod o wardiau Queensway, Plas Madoc ac Wynnstay. Mewn perthynas â gofal plant, bydd y dangosyddion a ddefnyddir i nodi amddifadedd yn dangos yn fras lle mae'n debyg bydd angen gofal plant i gefnogi'r rhaglen trechu tlodi. Fodd bynnag, y gofal plant yn yr ardaloedd hyn yw'r lleiaf tebygol o fod yn gynaliadwy yn y tymor byr, ond serch hynny mae'n angenrheidiol er mwyn galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith a gwella cyfleoedd bywyd plant. Felly, mae'n hanfodol i barhau i weithio'n agos â mentrau allweddol, megis Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a phrosiectau megis Agor Drysau i sicrhau bod gofal plant yn cael ei ystyried mewn unrhyw ddatblygiadau lleol i ysgogi'r ardal a galluogi pobl i ddefnyddio gofal plant er mwyn dychwelyd i, neu aros mewn gwaith neu hyfforddiant.

4.5 Plant Anabl

Rydym yn parhau i fod heb unrhyw ffynhonnell ddata gywir na dibynadwy lle gellir amcangyfrif nifer y plant anabl yn Wrecsam. Mae'r ffynonellau data sydd ar gael y gallwn gael rhywfaint o awgrym o ran y nifer posibl o blant a allai fod angen lefel o gymorth ychwanegol yn cynnwys data CYBLD (2015), yn manylu ar nifer y disgyblion sydd â datganiad o AAA. Mae'r ffynhonnell ddata yma'n awgrymu bod 111 o ddisgyblion mewn ysgolion yn Wrecsam sydd â datganiad o AAA.

Un ffynhonnell arall o wybodaeth yw nifer y plant sy'n cael cymorth ar hyn o bryd oddi wrth gyllid Dwylo Ychwanegol Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ar gyfer plant sydd angen cymorth ychwanegol mewn lleoliad gofal plant. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015 – 2016, ariannwyd 57 o blant i dderbyn cymorth staff ychwanegol er mwyn cael mynediad at leoliadau gofal plant. O'r rheiny cafodd 32 eu hariannu i gael cefnogaeth staff ychwanegol i ddefnyddio gofal tu allan i'r ysgol, cafodd 20 o blant oed cyn ysgol eu cefnogi gyda chyllid ar gyfer staff ychwanegol i fynychu cylch chwarae cyfrwng Saesneg, cefnogwyd 4 i fynychu Cylchoedd Meithrin a chefnogwyd 1 plentyn i fynychu Meithrinfa. Mae'r ffigurau hyn yn parhau i fod ar lefel gymharol sefydlog o flwyddyn i flwyddyn, gan ddarparu lefel ddangosol o lefel barhaus o gefnogaeth ar gyfer plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

4.6 Diweddariad Cymraeg

Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod y ganran o bobl yn Wrecsam (dros 3 oed) sy'n siarad Cymraeg yn 12.9%, ond dim ond 9.2% all siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Ein dyhead yw y bydd mwy o blant ac oedolion yn defnyddio'r Gymraeg. Mae lefel sefydlog o blant wedi cychwyn dosbarthiadau Derbyn mewn ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd diwethaf o fewn y fwrdeistref sy'n awgrymu fod nifer sefydlog o rieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg o un flwyddyn i'r llall.

Ar hyn o bryd, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu mewn 8 ysgol gynradd, gan gynnwys un ysgol gynradd lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu naturiol ac un ysgol arall â ffrwd Gymraeg. Mae dysgwyr o'r ysgolion hyn yn trosglwyddo ar gyfradd gyson o 99% neu uwch i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir, sydd wedi ei lleoli yng nghanol tref Wrecsam. Mae'r ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n weddill i gyd yn darparu addysg ddwyieithog, gyda dysgwyr yn dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r 'Arolwg Newydd-anedig a Chyn-Ysgol' yn rhoi gwybodaeth amserol ddefnyddiol gyda manylion y galw a ddisgwylir ar gyfer gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu'n Seiliedig ar Ffydd. Mae hyn yn cael ei weithredu ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam a Swyddfa Gofrestru Wrecsam ac yn cefnogi cynllunio lleoedd gofal plant ac ysgolion digonol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses gynllunio ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac ym mis Mawrth 2016 dangoswyd fod 21.7% o ymatebwyr am i'w plant dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd CBSW yn parhau i weithio ar hyrwyddo'r arolwg ar-lein ymhellach ac rydym hefyd yn puro'r casgliad data fel y gall ddweud mwy wrthym am yr ardaloedd lle bydd galw yn dod oddi wrthynt.

Bu cynnydd cyson yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r cyfraddau trosglwyddo i leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn uwch na 90%.

4.7 Diwygio'r Gyfundrefn Les a defnydd o Gredyd Trethi (ffynhonnell Dadansoddiad O Anghenion Trechu Tlodi Wrecsam 16 – 17)

Yng Nghyllideb yr Haf cyhoeddodd y llywodraeth Geidwadol newydd ostyngiad pellach i ddiffyg y wlad a bydd £12 biliwn o doriadau i'r gyfundrefn les (erbyn 2019/20) gyda diwygiadau newydd i'w rhoi ar waith, fodd bynnag mae hyn wedi ei newid yn sgil adolygiad o wariant yr Hydref.

Amlinellir y newidiadau isod a byddant yn cael effaith ar bobl sydd mewn gwaith, ac sydd allan o waith:

- Rhewi budd-daliadau oedran gweithio gan gynnwys credydau treth a lwfans tai lleol am 4 mlynedd o 2016/17 - Gyda'i gilydd, mae 243,000 o bobl yng Nghymru sy'n derbyn o leiaf un budd-dal allan o waith a 120,000 o gartrefi sy'n derbyn credydau treth mewn gwaith, a byddant yn gweld eu hincwm yn cwympo o gyfartaledd o 4.8% erbyn 2020 (sydd gyfwerth â £260 fesul teulu fesul blwyddyn neu £5.00 yr wythnos) [1].

[1] Summer Budget 2015: What it means for Wales, July 2015 Bevan Foundation

- Uchafswm Budd-daliadau i'w ostwng i £20,000 (o £26,000) - amcangyfrifir y bydd hyn yn effeithio ar oddeutu 5,000 o deuluoedd yn ôl ffigyrau Llywodraeth Cymru.[2]

- Dileu hawl credyd plant a chredyd cynhwysol ar gyfer 3ydd plentyn ac unrhyw blant dilynol o Ebrill 2017 (dim ond ar gyfer hawlwyr newydd a genedigaethau newydd)

Bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael effaith ar deuluoedd incwm isel gan fod cyfran sylweddol o'u hincwm yn dod mewn budd-daliadau gwaith.

Mae credydau treth yn cynyddu incwm isel i deuluoedd a gallai hyn gael effaith ar lawer o deuluoedd yng Ngogledd Cymru:

Nifer cyfartalog o deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau a hawliau blynyddol cyfartalog ym mhob awdurdod lleol, 2013 – 14

Sir	Teuluoedd sy'n derbyn credydau treth	Cyfanswm teuluoedd sy'n derbyn (mewn gwaith ac allan o waith (000au))	Cyfanswm teuluoedd sydd allan o waith (000au)
Ynys Môn	3.9	5.4	1.5
Gwynedd	6.7	8.7	2.0
Conwy	6.6	8.9	2.3
Sir Ddinbych	5.3	7.6	2.3
Sir y Fflint	7.8	10.7	2.9
Wrecsam	7.6	10.8	3.2

Ffynhonnell: Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Credydau Treth Personol, ystadegau dyfarnu terfynol 2013/14

Wrecsam sydd â'r nifer uchaf o dderbynwyr ar gyfer pob credyd treth, gyda 70.4% o'r rheiny sy'n hawlio mewn gwaith, tra bo 29.6% allan o waith, a'r canran hwnnw yw'r uchaf ar draws Gogledd Cymru ond yn is na'r canran dros Gymru gyfan. Bydd effaith y gostyngiad yn y swm y gall teuluoedd ei ennill cyn y tynnir credydau treth yn ôl yn golygu y bydd teuluoedd yn colli tua £1,000 (£20 yr wythnos) y flwyddyn.[3]

[2] Ibid

5. DATA DARPARIAETH GOFAL PLANT

5.1 Trosolwg – Mathau, Gwasanaethau a Lleoliadau Gofal Plant

Mae Deddf Gofal Plant (2006) yn diffinio gofal plant y mae'n rhaid i'r ADdGP ei gymryd i gyfrif, fel un y mae elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn daladwy ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys gofal dydd llawn, gofal sesiynol (cylchoedd chwarae), gofal y tu allan i'r ysgol (clybiau cyn ac ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau) a gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Yn ogystal, mae gofal plant a weithredir gan ysgolion yn gymwys ar gyfer taliadau credyd treth, hyd yn oed os nad ydynt wedi cofrestru.

Mae Cynlluniau Chwarae wedi eu cofrestru gan AGGCC ac yn darparu adnodd lleol hanfodol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau chwarae wedi eu cynnwys yn Asesiad 2014 oherwydd natur eu mynediad agored ac nad ydi hyd y sesiynau byr bob amser yn addas ar gyfer rhieni sy'n dymuno defnyddio gofal plant i'w galluogi i weithio neu hyfforddi. Mae dadansoddiad llawn o gynlluniau chwarae a chyfleoedd eraill wedi eu cynnwys yn Asesiadau o Ddigonolrwydd Chwarae ar gyfer 2013 a 2014. Ar gyfer yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Chwarae llawn gweler: https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/play/wrexham_psa_abridged.pdf

Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r data a gasglwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ac er mwyn sicrhau eglurder, mae'r term 'gofal plant' wedi ei ddiffinio i olygu lle sydd ar gael am yr holl amser y bydd y gwasanaeth gofal plant ar gael, ee 9am-5pm, Dydd Llun – dydd Gwener.

5.2 Penawdau

- Bu cynnydd bach yn nifer y lleoedd gofal plant a gofnodwyd yn Wrecsam dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda gostyngiad bach yn y nifer o leoliadau sy'n darparu'r lleoedd hyn
- Gyda'i gilydd mae'r 318 o leoliadau yn Wrecsam yn darparu cyfanswm o 9,526 o leoedd gofal plant a gofnodwyd
- O'r rhain nodwyd fod 2,004 o leoedd gofal plant yn cael eu darparu gan leoliadau sydd heb eu cofrestru
- Cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant yn Wrecsam y gallai elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith gael ei hawlio ar eu cyfer yn 2016 oedd 7,280 (gostyngiad ers 2016).

Mae gostyngiad wedi bod yn y nifer o leoliadau gofal plant a gofnodwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Ym mis Ionawr 2017 cofnodwyd 318 o leoliadau gofal plant gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, oedd yn cynnwys darpariaeth a gofrestrwyd a darpariaeth heb ei gofrestru. Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson yn yr adolygiad hwn o ofal plant, defnyddir y gair *lleoliad* i gyfeirio at wasanaethau unigol yn hytrach na lleoliadau unigol, gan mai hyn sy'n cynrychioli digonolrwydd gofal plant sydd ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bu cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant a gofnodwyd yn Wrecsam dros y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'i gilydd mae'r 318 o leoliadau yn Wrecsam yn darparu cyfanswm o 9526 o leoedd gofal

plant a gofnodwyd, ac o'r rhain nodwyd fod 2004 heb eu cofrestru. Fodd bynnag, gallai'r nifer gwirioneddol o leoliadau heb eu cofrestru fod yn uwch, gan y bydd rhai'n bodoli na wyddys amdanynt.

Nifer o leoliadau (gwasanaethau) gofal plant a gofnodwyd



Y cyfanswm o leoedd gofal plant yn Wrecsam y gellid hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith ar eu cyfer yn 2017 oedd 7280. Seiliwyd hyn ar yr holl leoliadau cofrestredig roedd angen ffioedd, ac mae hyn yn gynnydd ers 2014, pan oedd 7025 o leoedd ar gael lle gellid hawlio elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith ar eu cyfer.

5.3 Nifer o Ddarparwyr Gofal Plant a Math o Wasanaethau (Cofrestredig ac Anghofrestredig / Cymeradwywyd)

Wrth ddadansoddi digonolrwydd gofal plant, mae rhannu'r ddarpariaeth wahanol i sector ac i flynyddoedd cynnar neu ofal plant oed ysgol yn ddefnyddiol wrth asesu nifer y lleoedd sydd ar gael, amseroedd a hyd y sesiynau a gynigir, y costau, a'r lleoedd ym mhob sector a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae dadansoddi'r ddarpariaeth yn ôl yr ystod oedran y darperir ar eu cyfer yn anodd o ganlyniad i'r ffaith nad yw darparwyr gofal plant yn dyrannu nifer penodol o leoedd i bob ystod oedran, gan fod hyn yn dibynnu ar y galw presennol. Gan y gallai pob lle fod ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r grwpiau oedran, byddai cyflenwi nifer y lleoedd yn ôl ystod oedran yn arwain at gyfrif dwbl a fyddai'n rhoi darlun anghywir o'r ddarpariaeth. Rydym wedi

penderfynu dadansoddi darpariaeth yn ôl math yn hytrach nag ystod oedran er mwyn gallu arddangos effaith ar y farchnad gofal plant ac er mwyn rhoi darlun cywir a ellir ei gymharu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Wrth ddadansoddi sefyllfa bresennol y farchnad a dod i ganlyniadau ar gyfer ein Cynllun Gweithredu rydym wedi ystyried y dadansoddiad galw a gymerwyd o'r wybodaeth a nodwyd yn yr arolwg rhieni a gofalwyr a beth rydym yn ei wybod am y farchnad gofal plant o ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, gwybodaeth o'r ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac o beth rydym yn ei wybod yn lleol er mwyn nodi meysydd lle mae angen gwella. Mae cysondeb o safbwynt dadansoddi a chyflwyno data yn arbennig o bwysig er mwyn gallu cynllunio'n strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Cytunodd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam ar y flaenoriaeth a'r dull gweithredu hwn ac o ganlyniad mae cyflwyniad y canfyddiadau isod yn gyson ag asesiadau eraill fodd bynnag mae'n tynnu ar ddata Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth er mwyn bod o gymorth wrth ddadansoddi, ble fo angen.

Ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam, nid yw gofal plant wedi'i ddosbarthu'n gyfartal naill ai yn ôl yr ystod o leoliadau sydd ar gael ym mhob ardal (gan ddarparu dewis); yn ôl y nifer o leoliadau o bob un (gan ddarparu hygyrchedd); nac yn ôl y nifer o lefydd (gan ddarparu argaeledd). Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno dosbarthiad gofal plant a gofnodwyd ar draws Wrecsam. Yn 2015 - 2016, roedd yn Wrecsam y cymysgedd canlynol o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant:

Mae manylion gofal plant heb eu cofrestru a'u cymeradwyo i'w canfod yn y dadansoddiad o ofal plant yn ôl math wedi'r adran hon.

Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a'r Gwasanaethau a Ddarperir

WARD	Gwarchodwyr Plant	Nifer O leoedd	Gofal Dydd Llawn	Nifer O leoedd	Gofal Sesiynol	Nifer O leoedd	Clybiau Cyn Ysgol	Nifer O leoedd	Clybiau Ar Ôl Ysgol	Nifer O leoedd	Clybiau Gwyliau	Nifer O leoedd	Cyfanswm Lleoliadau	Cyfanswm O leoedd
Canolog														
Acton	1	6	1	40	1	40	1	50	1	50	2	90	**7**	**276**
Parc Borras	1	5	1	61	0	0	1	12	1	12	1	12	**5**	**102**
Brynyffynnon	0	0	3	166	3	93	1	16	1	16	3	85	**11**	**376**
Cartrefle	1	6	2	116	0	0	0	0	0	0	0	0	**3**	**122**
Erddig	1	6	0	0	1	24	1	45	2	55	1	15	**6**	**145**
Garden Village	1	6	0	0	2	46	2	78	1	48	1	48	**7**	**226**

Grosvenor	2	14	4	197	1	24	2	150	1	10	2	25	**12**	**420**
Hermitage	1	6	0	0	3	98	1	108	2	78	1	56	**8**	**346**
Little Acton	0	0	0	0	1	20	0	0	0	0	0	0	**1**	**20**
Maesydre	0	0	0	0	0	0	1	45	1	24	0	0	**2**	**69**
Offa	1	6	0	0	3	62	2	71	3	129	2	97	**11**	**365**
Queensway	0	0	0	0	0	0	1	40	1	40	0	0	**2**	**80**
Rhosnesni	2	11	0	0	2	43	2	170	1	56	1	56	**8**	**336**
Smithfield	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	**0**	**0**
Stansty	1	5	0	0	2	42	1	50	1	50	0	0	**5**	**147**
Whitegate	1	4	0	0	1	20	1	29	0	0	0	0	**3**	**53**
Wynnstay	0	0	0	0	2	50	1	75	0	0	0	0	**3**	**125**
Cyfanswm Canol	**13**	**75**	**11**	**580**	**22**	**562**	**18**	**939**	**16**	**568**	**14**	**484**	**94**	**3208**
Gogledd														
Brymbo	3	13	2	67	0	0	1	31	1	31	2	69	**9**	**211**
Bryn Cefn	1	7	0	0	2	32	1	30	1	26	1	26	**6**	**121**
Coedpoeth	7	54	1	20	4	102	1	80	1	32	0	0	**14**	**288**
Dwyrain a Gorllewin Gresffordd	2	16	1	67	3	79	3	179	2	112	2	75	**13**	**528**
Gwenfro	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	**0**	**0**
Dwyrain a De Gwersyllt	5	40	0	0	3	129	1	60	2	113	0	0	**11**	**342**
Gogledd Gwersyllt	0	0	0	0	3	79	1	100	1	48	1	15	**6**	**242**
Gorllewin Gwersyllt	2	17	1	36	0	0	0	0	1	8	0	0	**4**	**61**
Llai	0	0	1	29	3	72	1	48	1	48	1	48	**7**	**245**
Merffordd a Hoseley	3	18	0	0	2	52	1	58	1	58	1	58	**8**	**244**
Y Mwynglawdd	2	11	0	0	1	40	2	86	2	56	1	40	**8**	**233**
Brychdyn Newydd	3	22	2	100	2	38	1	45	0	0	1	15	**9**	**220**
Yr Orsedd	1	5	1	61	2	48	1	56	1	56	1	40	**7**	**266**
Cyfanswm Gogledd	**29**	**203**	**9**	**380**	**25**	**671**	**14**	**773**	**14**	**588**	**11**	**386**	**102**	**3001**
De														
Bronington	2	16	2	94	4	102	2	76	3	103	3	125	**16**	**516**
Cefn	4	20	0	0	5	124	2	95	4	93	0	0	**15**	**332**
Gogledd y Waun	1	6	0	0	0	0	0	0	1	24	0	0	**2**	**30**
De'r Waun	0	0	1	20	2	50	2	110	1	48	0	0	**6**	**228**
Dyffryn Ceiriog	0	0	0	0	1	19	1	30	1	24	0	0	**3**	**73**
Esclus	2	20	0	0	1	30	0	0	1	40	1	40	**5**	**130**

Holt	1	4	1	73	1	26	3	64	3	63	1	23	**10**	**253**
Johnstown	1	8	0	0	1	30	2	125	1	24	0	0	**5**	**187**
Llangollen Wledig	2	9	1	23	2	20	1	25	2	56	1	32	**9**	**165**
Marchwiail	0	0	0	0	1	24	1	56	1	56	0	0	**3**	**136**
Owrtyn	2	15	2	65	2	40	4	135	4	131	2	56	**16**	**442**
Pant	1	5	0	0	1	12	0	0	0	0	0	0	**2**	**17**
Penycae	2	13	0	0	2	28	0	0	0	0	0	0	**4**	**41**
Penycae a De Rhiwabon	0	0	0	0	1	26	0	0	0	0	0	0	**1**	**26**
Plas Madoc	0	0	0	0	3	52	1	95	1	48	0	0	**5**	**195**
Ponciau	3	18	0	0	4	116	1	100	2	65	1	25	**11**	**324**
Rhiwabon	3	16	1	23	2	46	0	0	2	81	1	56	**9**	**222**
Cyfanswm De	**24**	**150**	**8**	**298**	**33**	**745**	**20**	**911**	**27**	**856**	**10**	**357**	**122**	**3317**
Cyfanswm	**66**	**428**	**28**	**1258**	**80**	**1978**	**52**	**2623**	**57**	**2012**	**35**	**1227**	**318**	**9526**

Ers ADdGP 2014, mae'r nifer o leoliadau wedi gostwng o 9.4% ac mae'r nifer o leoedd wedi cynyddu 5.4%. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn clybiau cyn ysgol a chlybiau gwyliau, gyda chynnydd o 13% ac 11.5% yn y nifer o leoedd.

Ers 2011, mae marchnad gofal plant Wrecsam wedi aros yn weddol sefydlog. Gellir egluro mân newidiadau yn y nifer o ddarparwyr a lleoedd drwy newid naturiol (darparwyr sesiynol yn symud at fodel dydd llawn, gwarchodwyr plant yn cau, darpariaeth y tu allan i'r ysgol yn ehangu) gyda rhai newidiadau'n digwydd o ganlyniad i newidiadau yn y dull o gofrestru a nodwyd yn ADdGP 2014. Yn gyffredinol, ystyrir fod y nifer o ddarparwyr a'r nifer o leoedd sydd ar gael yn weddol gyson dros amser.

6. DARPARIAETH GOFAL PLANT

6.1.1 Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant – Gwarchodwyr Plant

Mae'r math hwn o ofal plant yn bwysig gan ei fod yn rhoi dewis i rieni o leoliad rhwng gofal yn y cartref a gofal grŵp. Mae gwarchodwyr plant yn darparu opsiwn ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol neu oriau hyblyg, gyda'r nos, sifftiau neu nosweithiau a gellir eu categoreiddio fel gofal plant y blynyddoedd cynnar ac oedran ysgol.

Ers ADdGP 2014, bu gostyngiad yn y nifer o leoliadau gwarchodwyr plant, o 85 i 66, a gostyngiad yn y nifer o leoedd, o 451 i 428. Fesul ward, darperir cyfanswm y nifer o leoliadau gofal plant a'r lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol a fesul ward yn y tabl gofal plant ar dudalen 15. Mae'r nifer uchaf o leoliadau

a lleoedd gwarchodwyr plant yn Nwyrain a De Gwersyll a Choedpoeth, sydd â 40 a 54 o leoedd. Ar hyn o bryd mae 14 ward heb unrhyw ofalwyr plant yn gweithio ynddynt.

6.1.2 Darpariaeth yn ystod y tymor neu wyliau

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn Wrecsam ar agor am y flwyddyn gyfan (92.3%) tra bo 7.7% ar agor yn ystod y tymor yn unig.

6.1.3 Amseroedd a hyd sesiynau gwarchodwyr plant

Mae gwarchodwyr plant yn hyblyg yn y gofal plant y gallant ei ddarparu. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn dal i gynnig wythnos safonol bum niwrnod, gyda 24 o warchodwyr plant yn dweud y byddant yn darparu gofal plant ar y penwythnos. Mae hyn yn gynnydd o'r 23 o ADdGP 2014. Oherwydd hyblygrwydd gwarchodwyr plant, gallant gynnig sesiynau o amrywiol hyd, fel ychydig oriau cyn neu ar ôl ysgol, gwarchod plant yn achlysurol am ychydig o oriau, neu sesiynau hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan. Gall diwrnod cyfan amrywio rhwng 8½ awr ac 17 awr, ond mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn Wrecsam yn darparu gofal am 10 neu 11 awr y diwrnod. Dim ond 1 gwarchodwr plant yn Wrecsam sy'n darparu oriau agor hyblyg iawn ac sy'n trafod anghenion gyda rhieni. Yn ogystal, mae 1 gwarchodwr plant sy'n darparu gofal am hyd at 17 awr y diwrnod a 6 sy'n darparu gofal am hyd at 12 awr y diwrnod.

6.1.4 Hyblygrwydd

Gwarchodwyr plant sy'n cynnig yr hyblygrwydd mwyaf i rieni sy'n gweithio o ran darpariaeth hyblyg, gyda'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn gweithredu drwy'r wythnos waith arferol (80%) a 9.2% ar agor ar y penwythnos fel rhan o'u horiau agor arferol. Mae cyfran fach o warchodwyr plant ar agor am lai na'r wythnos bum niwrnod arferol (20%). Mae'r oriau estynedig hyn yn tueddu i weithredu yn wardiau Cefn, Coedpoeth, Esclus, Gorllewin Gwersyllt a Phenycae a gallant ddarparu adnodd hanfodol ar gyfer rhieni sydd angen gofal plant dros y penwythnos er mwyn gweithio.

6.1.5 Nifer o leoedd gwarchodwyr plant ar gael yn Gymraeg:

Lleoliad Cyfrwng Cymraeg – 0 lle
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg – 58 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o Gymraeg - 270 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg – 100 lle

Mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o leoedd gwarchod plant ar gael drwy gyfrwng y Saesneg gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg (63.1%). Fodd bynnag mae cynnydd wedi bod yn y nifer a'r ganran o leoedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, o 6.9% i 13.5%, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain i'w canfod yn wardiau Bryn Cefn, Coedpoeth, Gorllewin Gwersyllt, Y Mwynglawdd, Penycae a Rhosnesni. Fodd bynnag, er y cynnydd hwn does dim gwarchodwyr plant yn categoreiddio'u hunain fel cyfrwng Cymraeg *yn unig*, gan fod lleoliadau yn cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

6.1.6 Ffioedd

Mae ffioedd gwarchodwyr plant yn amrywio o £2.73 i £6.50 yr awr ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda'r ffi fesul awr ar gyfartaledd yn £3.78. Mae hyn yn gynnydd o 1.9% ers ADdGP 2014. Mae costau dyddiol yn amrywio o £13.13 i £65.00 ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda'r ffi ddyddiol ar gyfartaledd yn £36.79. Mae hyn yn ostyngiad o 1% ers ADdGP 2014. Gan fod y nifer o oriau mae lleoliad gwarchodwr plant ar agor yn amrywio, mae ffi wythnosol wedi ei gyfrifo wedi'i selio ar 50 awr a 25 awr. Y ffi wythnosol ar gyfartaledd yw £188.93 am 50 awr a £94.46 am 25 awr.

6.1.7 Credydau Treth Gwaith, Gofal Plant â Chymorth Cyflogwyr Gofal Plant Di Dreth

Yn Wrecsam, mae 428 o leoedd gwarchod plant yn gymwys i rieni hawlio cymorth gyda'u costau gofal plant (100%).

6.1.8 Safon

Mae'r holl leoliadau gwarchodwr plant wedi eu cofrestru ac yn cwrdd Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel y'u gosodir gan AGGCC.

6.1.9 Lleoedd Gwag

Yn ôl data'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a dderbyniwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2016, roedd 9 lle gwag ar draws lleoliadau gwarchodwyr plant. Mae hyn yn cynnwys lleoedd llawn amser a rhan amser. Fodd bynnag, nid yw'r data yn gyflawn gan na wnaeth nifer o leoliadau ar draws Wrecsam gwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac mae rhai lleoliadau wedi darparu gwybodaeth anghywir.

6.1.10 Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae sector gwarchod plant Wrecsam yn cael ei gefnogi'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn aelodau o PACEY Cymru ac mae pob un yn derbyn cymorth o ddydd i ddydd gyda Swyddog Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam penodol rhan amser.

Mae llwybr pwrpasol ar gyfer y rheiny sydd am ddod yn warchodwyr plant sy'n cynnwys pecyn hyfforddi â chymhorthdal sylweddol sy'n cynnwys cefnogaeth cyn cofrestru, cwrs CYPOP 5, cymorth cyntaf i blant, hyfforddiant diogelwch bwyd a diogelu i'w cynorthwyo i gychwyn eu busnes newydd.

Ers amser mae'r sector gwarchodwyr plant wedi bod yn cwrdd yn anffurfiol ar draws y sir mewn grwpiau plant bach a sesiynau chwarae meddal, sy'n darparu cefnogaeth allweddol gan gymheiriaid. Mae'r sesiynau hyn yn parhau i gael eu cefnogi gan Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam gydag ymweliadau rheolaidd gan Swyddogion Gofal Plant a Thîm Estyn Allan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam.

Mae gan Warchodwyr Plant Wrecsam gyfle i weithio tuag at fod yn aelod o Rwydwaith Gwarchod Plant Cymuned Wrecsam sy'n darparu lleoliadau a ariannwyd i deuluoedd mewn argyfwng, a derbyn lefel ychwanegol o gymorth gan gynnwys hyfforddiant, adnoddau, cymorth a sesiynau goruchwylio a nosweithiau rhwydweithio er mwyn hwyluso cefnogaeth gan gymheiriaid. Mae'r rhaglen hon wedi bod o fudd i deuluoedd sydd wedi cael cymorth gan y rhwydwaith gwarchod plant, a hefyd wedi darparu incwm rheolaidd i'r gwarchodwyr plant ac wedi cyfrannu at gynaliadwyedd a hyfywedd y sector hon yn Wrecsam.

Un o'r gwendidau a nodwyd am y sector gwarchodwyr plant yn Wrecsam yw bod nifer gweddol uchel o wardiau yn parhau i fod heb unrhyw warchodwyr plant. Argymhellwyd y dylid gwneud gwaith penodol er mwyn hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa ac i dargedu'r ardaloedd hynny yn benodol, gan gynnwys pecyn cychwyn busnes dwys fel cymhelliad.

Gwendid arall a nodwyd yw nad oes gwarchodwr plant wedi eu cymeradwyo i ddarparu lleoedd Addysg Cynnar neu Dechrau'n Deg a ariannwyd yn Wrecsam. Cafodd y cynnig i gymeradwyo gwarchodwyr plant fel darparwyr Dechrau'n Deg yn 2016, ond ni ymgeisiodd unrhyw warchodwr plant ac nid yw'r cyfle am Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn bodoli ar hyn o bryd.

Mae cyfle i warchodwyr plant ddarparu nifer sylweddol o leoedd i rieni sy'n gweithio o dan 'Gynnig Gofal Plant Cymru' sydd ar gyrraedd.

Mae gwarchodwyr plant yn Wrecsam yn parhau i gynnig gwasanaeth hyblyg iawn a chynhwysol sy'n cael ei ddefnyddio gan nifer o deuluoedd sydd â phlant anabl neu blant gydag anghenion gofal unigol.

Un o gryfderau eraill y sector gwarchod plant yn Wrecsam yw fod grŵp o warchodwyr plant Portiwgeaidd yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig gofal hyblyg iawn i deuluoedd, y mae llawer ohonynt yn gweithio sifftiau. Mae'r gwarchodwyr plant hyn yn adeiladu busnesau llwyddiannus, hynod o gynaliadwy y mae gan y gymuned Bortiwgeaidd lawer o hyder ynddynt.

6.2 Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant - Gofal Dydd Llawn - meithrinfeydd dydd

Yn aml mae meithrinfeydd dydd yn darparu gofal i blant rhwng 0-4 oed yn ogystal â phlant o oedran ysgol hefyd. Ers ADdGP 2014, mae'r nifer o leoliadau gofal dydd llawn wedi gostwng ychydig i 28 lleoliad o 29 lleoliad, a bu gostyngiad bychan yn y nifer o leoedd gofal dydd llawn o 1,287 i 1,258 o leoedd. Yn ôl ward, mae'r nifer o leoliadau gofal dydd llawn a lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol a fesul ward yn cael eu darparu yn y tabl gofal plant ar dudalen 15

Mae'r nifer uchaf o leoliadau a lleoedd gofal dydd llawn yn parhau i fod yn wardiau Grosvenor a Brynffynnon, gydag 197 ac 166 o leoedd. Fodd bynnag, mae 29 ward yn Wrecsam heb unrhyw leoliad gofal dydd llawn.

6.2.1 Darpariaeth yn ystod y tymor neu wyliau

Mae 93.1% o feithrinfeydd dydd ar agor yn ystod y tymor a dros wyliau'r ysgol, tra bo 6.9% ond ar agor yn ystod y tymor. Fodd bynnag, mae nifer o feithrinfeydd dydd nad ydynt ar agor bob diwrnod o wyliau ysgol e.e. Mae 57.1% o feithrinfeydd dydd yn cau ar gyfer rhan o'r gwyliau Nadolig neu dros y gwyliau i gyd.

6.2.2 Amseroedd a hyd sesiynau gofal dydd cyfan

Gellir darparu gofal dydd llawn am unrhyw beth rhwng 6 awr a 12 awr y diwrnod. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ar agor am 10 ½ awr (32.1%) y dydd ac yn darparu gofal fel arfer rhwng 7.30am a 6.00pm. Dim ond 6 meithrinfa ddydd sy'n darparu gofal yn gynharach na 7:30am, tra bo 1 yn darparu gofal yn

hwyrach na 6:00pm. Ar ddiwrnodau yn ystod yr wythnos yn unig y mae 96.4% o leoliadau gofal dydd llawn yn Wrecsam ar agor, tra bo 1 lleoliad gofal dydd llawn ar agor ar ddyddiau Sadwrn hefyd. Fel arfer mae lleoliadau gofal dydd llawn ar gael ar gyfer sesiynau hanner diwrnod neu ddydd llawn, a gellir prynu oriau ychwanegol yn ogystal â'r sesiwn hanner diwrnod.

6.2.3 Hyblygrwydd

Gall lleoliadau gofal dydd llawn fod yn weddol anhyblyg yn yr oriau agor a ddarperir ac nid ydynt yn cynnig yr un faint o hyblygrwydd â gwarchodwyr plant. Gallai hyn effeithio ar y galw am ofal plant gan weithwyr sifftiau a'r rheiny sy'n gweithio ar benwythnosau, gan mai dim ond 1 lleoliad gofal dydd llawn ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cynnig gofal ar ôl 6pm yn ystod dyddiau'r wythnos, a dim ond 1 lleoliad gofal dydd llawn sy'n cynnig gofal ar benwythnosau (dydd Sadwrn yn unig).

6.2.4 Nifer o leoedd gofal dydd llawn sydd ar gael yn Gymraeg:

Lleoliad Cyfrwng Cymraeg – 0 lle
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg – 0 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o Gymraeg - 1258 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn Unig – 0 lle
Mae 100% o leoedd gofal dydd llawn yn Wrecsam yn ystyried eu hunain yn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg.

6.2.5 Ffioedd

Mae'r ffioedd cyfartalog ar gyfer darpariaeth gofal dydd llawn yn amrywio o £3.64 yr awr i £34.28 y diwrnod ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda ffi fesul awr gyfartalog o £3.49. Gan fod y nifer o oriau y mae lleoliadau gofal dydd llawn ar agor yn amrywio, mae ffi wythnosol wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar 50 awr a 25 awr. Y ffi wythnosol ar gyfartaledd yw £181.98 am 50 awr a £90.99 am 25 awr. Yn ward Brynyffynnon mae'r ffi ddyddiol uchaf ar gyfer darpariaeth gofal dydd llawn, sy'n £40.50, ac yn ward Bronington mae'r ffi ddyddiol isaf, sef £17.00.

6.2.6 Credydau Treth Gwaith, Gofal Plant â Chymorth Cyflogwr a Gofal Plant Di Dreth

Mae 1258 o leoedd mewn 28 lleoliad gofal dydd llawn (100%) yn gymwys i rieni hawlio cymorth gyda'u costau gofal plant.

6.2.7 Safon

Mae'r holl leoliadau gofal dydd llawn yn Wrecsam wedi eu cofrestru ac yn cwrdd Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel y'u gosodir gan AGGCC.

6.2.8 Lleoedd Gwag

Yn ôl data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a dderbyniwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2016, roedd 503 lle gwag ar draws lleoliadau gofal dydd llawn. Mae hyn yn cynnwys lleoedd llawn amser a rhan amser. Fodd bynnag, nid yw'r data yn gyflawn gan na wnaeth nifer o leoliadau ar draws Wrecsam gwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac mae rhai lleoliadau wedi darparu gwybodaeth anghywir.

6.2.9 Crynodeb o Gryfderau a Gwendidau Allweddol

Mae sector Meithrinfeydd Wrecsam yn ddibynadwy ac yn gyson. Ychydig o drosiant sydd yn y niferoedd o leoliadau a'r nifer o leoedd sy'n cael eu cynnig. Mae llawer o'r lleoliadau wedi'u sefydlu ers cyfnod sylweddol o amser. Mae gan lawer yn y sector meithrinfeydd lai o drafferthion na sectorau eraill gan fod ganddynt fodel gweithredu mwy sefydlog yn y rhan fwyaf o achosion ac mae ganddynt rwydwaith wedi'i sefydlu o gefnogaeth gan gymheiriaid yn lleol.

Mae'r sector Meithrinfeydd yn Wrecsam wedi ymrwymo i gynorthwyo rhieni i gael mynediad at eu gwasanaethau yn hyblyg a gallant fod yn hyblyg o safbwynt telerau'r taliadau, amseroedd sesiynau, a gallant gefnogi anghenion gweithwyr sifftiau. Mae un feithrinfa yn Wrecsam sydd ar agor yn rheolaidd ar ddyddiau Sadwrn gan gefnogi anghenion rhieni sy'n gweithio.

Mae perchnogion Meithrinfeydd Wrecsam yn ceisio datblygu eu busnesau eu hunain yn barhaol ac mae gan lawer achrediad gyda Buddsoddwyr Mewn Pobl ac yn aelodau o Gymdeithas Busnesau Bach y DU yn ogystal â chynlluniau Sicrhau Ansawdd gyda Chymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd neu eraill.

Mae'r sector meithrinfeydd yn parhau i wynebu heriau costau darparu cynyddol. Mae cynnydd yng nghostau staffio (cynnydd mewn cyflogau cenedlaethol byw ac isafswm cyflog, cyfraniadau pensiwn, cynnydd mewn cyfraddau busnes ayb) i gyd yn cyfrannu tuag at gostau gweithredu uchel heb gynnydd cysylltiol yn y pris a delir am y gwasanaethau,. Mae hyn yn broblem i'r sector gyfan, fodd bynnag mae'r sector meithrinfeydd yn tueddu i fod o dan y mwyaf o bwysau i osgoi cynnydd mewn prisiau gan fod rhieni yn aml yn cymryd mwy o amser mewn gofal plant meithrinfeydd nac mewn sectorau eraill. Mae'r anhawster o gydbwyso fforddiadwyedd a chynaliadwyedd yn parhau i fod yn her i'r sector hon.

Mae'r sector meithrinfeydd yn Wrecsam yn nodi fod 60 – 75% o'u lleoedd yn llawn a fod y rhan fwyaf o'u lleoedd gwag ar gyfer plant sy'n 2.5 oed ac yn hŷn. Mae'r sector yn teimlo fod rhieni yn dewis gofal plant yn seiliedig ar ba mor agos yw at yr ysgol y maent am i'w plentyn fynychu a all effeithio ar y lleoliadau gofal plant hynny nad ydynt yn agos at safle ysgol. Mae'r sector hefyd yn teimlo fod ysgolion sy'n cynnig gwasanaethau gofal plant yn herio eu hyfywedd gan y gall yr ysgol hefyd gynnig lleoedd yn rhatach na'r sector preifat.

Cryfder y sector feithrinfeydd yn Wrecsam yw'r gallu i ddarparu lleoedd i deuluoedd ar draws y flwyddyn. Mae gan rieni hawl i 48 wythnos o ddarpariaeth o dan Gynnig Gofal Plant arfaethedig Cymru. Gyda nifer uchel o ddarparwyr gofal sesiynol sydd ond yn cynnig darpariaeth yn ystod y tymor, mae meithrinfeydd ymysg y gorau i ddarparu ar y cynnig hwn a dylid ystyried sicrhau fod y sector yn cael cymorth i aros yn hyfyw er mwyn i'r Awdurdod Lleol allu darparu'r hawl pwysig hwn i rieni ar y cyfle cyntaf posib.

6.3. GOFAL DYDD – GOFAL DYDD SESIYNOL (dadansoddiad ar y cyd o gylchoedd chwarae, cylchoedd chwarae mwy a grwpiau cyfun)

Ers ADdGP 2014, bu gostyngiad yn y nifer o leoliadau gwarchodwyr plant (gan gynnwys gofal cofleidiol), o 86 lleoliad i 80, a gostyngiad yn y nifer o leoedd cofrestredig, o 2021 i 1978. Fesul ward, darperir cyfanswm y nifer o leoliadau gofal plant (cylchoedd chwarae) a'r lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol a fesul ward yn y tabl gofal plant ar dudalen 15.

Mae'r nifer uchaf o leoliadau a lleoedd gofal plant sesiynol yn wardiau Dwyrain a De Gwersyllt a Chefn, sydd â 129 a 124 o leoedd. Ar hyn o bryd mae 8 ward yn Wrecsam heb leoliadau gofal sesiynol.

6.3.1 Darpariaeth yn ystod y tymor neu'r gwyliau: Dim ond yn ystod y tymor mae grwpiau gofal sesiynol.

6.3.2 Amseroedd a hyd sesiynau gofal sesiynol: Mae'r rhan fwyaf o grwpiau gofal sesiynol ar agor am 5 diwrnod yr wythnos (78.2%), gyda chyfran yn agor am 4 diwrnod (15.4%) neu 3 diwrnod (6.4%). Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau yn rhedeg eu sesiynau yn y prynhawn (39.7%), gyda 21.8% yn rhedeg sesiynau yn y bore a'r prynhawn. Mae hyd sesiynau yn amrywio o 2 awr i 6 awr, gyda 50% yn rhedeg am 2 ½ awr a 21.8% o grwpiau yn rhedeg am 3 ½ awr. Dim ond nifer fach o grwpiau sy'n rhedeg am fwy na 3½ awr (14.1%). Mae 57.1% o leoliadau yn darparu sesiwn sy'n cynnwys amser cinio.

6.3.3 Hyblygrwydd: Nid yw gofal sesiynol yn ffurf hyblyg o ofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac ni all rhieni sydd am weithio neu hyfforddi ei ddefnyddio ar ei ben ei hun. Mae Cylch Chwarae / Meithrinfa Mwy neu gyfuniad o Gylch Chwarae / Cylch Chwarae a Mwy yn darparu'r dewis gorau ar gyfer rhieni sy'n gweithio gan eu bod yn cynnig gofal cofleidiol i blant oed meithrin.

6.3.4 Nifer o leoedd sesiynol ar gael yn Gymraeg:
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg – 193 lle
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg – 157 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o Gymraeg - 1558 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg– 0 lle

Bu cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg o 284 yn 2014 i 350 (23.2%). Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal sesiynol yn Wrecsam (79.4%) yn Saesneg gan fwyaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg, sy'n gynnydd o 1701 yn 2014 i 1558.

6.3.5 Ffioedd: Mae ffioedd gofal sesiynol yn amrywio o £4.00 i £13.50 y sesiwn, gyda ffi sesiwn ar gyfartaledd yn £8.15. Mae hyn yn gynnydd o 14% ers ADdGP 2014.

6.3.6 Credydau Treth Gwaith: Mae 67 allan o 80 (83.8%) o ddarparwyr gofal sesiynol yn gymwys i rieni hawlio Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith ar eu cyfer. Nid yw hyn yn cynnwys y grwpiau nad ydynt wedi cofrestru na'r rhai sy'n grwpiau Dechrau'n Deg.

6.3.7 Safon: Mae'r holl leoliadau gofal sesiynol llawn yn Wrecsam wedi eu cofrestru ac yn cwrdd Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel y'u gosodir gan AGGCC.

6.3.8 Lleoedd Gwag: Yn ôl data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a dderbyniwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2016, roedd 874 lle gwag ar draws lleoliadau gofal sesiynol. Fodd bynnag, nid yw'r data yn gyflawn gan na wnaeth nifer o leoliadau ar draws Wrecsam gwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac mae rhai lleoliadau wedi darparu gwybodaeth anghywir.

6.3.9 Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Bu cynnydd yn y ffi sy'n cael ei godi ar rieni am y math hwn o ofal. Y math hwn o ofal plant yw un o'r mathau mwyaf anghynaladwy a'r math sydd o dan y bygythiad mwyaf yn Wrecsam. Trafodir hyn ymhellach yn adran Cynaliadwyedd yr adroddiad hwn, fodd bynnag gan nad yw'r math hwn o ofal plant yn ei hunan yn darparu digon o oriau ar gyfer y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio, bydd elfen o alw marchnad na all ddarparu ar ei gyfer yn bodoli bob amser.

Mae llawer o'r gofal sesiynol a ddarperir ar draws Wrecsam yn elusennol ei natur ac yn cael ei redeg gan bwyllgorau bach. Mae hyn yn golygu heriau o'i gymharu â sefydlogrwydd y sector preifat, fodd bynnag mae union natur y grwpiau hyn a redir gan y rhai yn y gymuned wedi bod o gymorth i'w parhad.

Mae'r Cylchoedd Meithrin cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n helaeth yn Wrecsam gan y Mudiad Meithrin ac mae cylchoedd y Mudiad Meithrin yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Meithrin Mwy. Mae'r Mudiad Meithrin yn derbyn cyllid gan yr awdurdod lleol er mwyn cefnogi'r cylchoedd Ti a Fi. Drwy gyflogi swyddog Ti a Fi sy'n gweithio i gynorthwyo a hyrwyddo'r cylchoedd Ti a Fi yn ogystal â rhedeg 3 grŵp Ti a Fi, mae'r grwpiau hyn wedi eu datblygu er mwyn bwydo i'r Cylchoedd gan felly greu galw yn y farchnad a gwella cynaliadwyedd y grwpiau. Mae adnabod y chefnogi'r teuluoedd hynny sydd am i'w plant gael gofal plant cyfrwng Cymraeg yn gynnar wedi cael effaith bositif ar y nifer o blant sy'n cael gofal plant cyfrwng Cymraeg, ac yn ogystal cydnabyddir hyn yn y lefelau uchel o drosglwyddiadau i leoedd meithrin a derbyn cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg grŵp Meithrin Mwy ar y safle bellach, sy'n darparu gofal cofleidiol i'r plant hynny sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn yr ysgol. Mae yna 4 Darparwr Dechrau'n Deg iaith Gymraeg a 6 darparwr Addysg Gynnar iaith Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'r Cylchoedd yn derbyn plant o 2 oed. Mae gofal dydd llawn ar gael mewn 3 o'r lleoliadau gydag un lleoliad hefyd yn darparu clwb brecwast. Mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg wedi eu gwasgaru'n wastad ar draws y sir felly maent yn hygyrch i'r rheiny sy'n ffafrio Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae patrwm yn y sector cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg lle mae lleoliadau wedi bod yn cael trafferth recriwtio staff cymwys. Mae hyn yn broblem benodol i'r rheiny sy'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg lle mae angen cymhwyster Lefel 5 a'r rheiny sydd â sgiliau Cymraeg priodol sy'n rhoi'r sector mewn peryg parhaol.

Mae'r lleoliadau hynny sy'n fach neu sydd mewn ardal wledig yn parhau i gael trafferth gyda niferoedd isel. Mae'r grwpiau hyn yn darparu gwasanaeth hanfodol ac mae'n bosib y byddant wastad yn dibynnu ar ryw fath o gymorth cynaliadwy i aros ar agor. Mae hyn o bwys penodol wrth ystyried y 'Cynnig Gofal Plant i Gymru' sydd ar ddod.

Mae problem barhaol yn lleol gyda phwysau ar leoedd ysgol sy'n golygu bod rhai grwpiau gofal plant mewn peryg. Mae hyn yn cael ei fonitro'n ofalus mewn partneriaeth ag adran addysg yr Awdurdod Lleol ond mae'n debygol o gael effaith ar y darparwyr sesiynol yn fwy na sectorau eraill.

6.4 Crèche

6.4.1 Ar hyn o bryd mae un crèche cofrestredig ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae ganddo bwrpas penodol iawn ac nid yw ar gael i'r cyhoedd. Ei nod yw galluogi rhieni i gael cymorth drwy sefydliad gwirfoddol. Mae sawl crèche ad hoc hefyd yn cael eu rhedeg ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn galluogi rhieni i fynd ar gyrsiau byr neu gael cymorth rhianta. Gan nad oes yn rhaid i'r rhain gofrestru a'u bod yn gweithredu mewn lleoliadau gwahanol am gyfnodau byr o amser, dydy hi ddim yn ymarferol eu cynnwys. Felly does dim dadansoddiad pellach o'r math hwn o crèche wedi ei gynnwys yn yr Asesiad hwn.

6.4.2 Crynodeb o Gryfderau a Gwendidau Allweddol

Mae nifer fach o leoliadau cofrestredig sy'n cynnig darpariaeth crèche arbenigol ar gyfer priodasau ayb, ond nid yw darpariaeth crèche yn rhywbeth sydd wedi ei nodi fel angen ar draws Wrecsam.

***6.5 Plant oedran ysgol* - Gofal y Tu Allan i'r Ysgol**

(darpariaeth cyn ysgol, ar ôl ysgol a dros y gwyliau, clwb brecwast am ddim)

Diffinnir gofal plant oedran ysgol yn yr adroddiad hwn fel gofal sy'n cael ei ddarparu cyn ysgol, ar ôl ysgol, ac yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer plant o oedran ysgol, a gall gynnwys clybiau y tu allan i'r ysgol, meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant, sydd wedi eu cyflwyno yn yr adroddiad yn flaenorol. Yn y rhan fwyaf o achosion mae gofal plant oedran ysgol ar gyfer plant sy'n 4 oed ac yn hŷn. At ddibenion cofrestru, dim ond gofal y tu allan i oriau ysgol sy'n cynnwys plant o 12 sy'n dod o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ni all lleoliadau sydd ond ar gyfer plant hŷn gofrestru o dan Ddeddf Plant (1989).

Ym mis Ionawr 2017, roedd 5,862 o leoedd gofal plant y tu allan i'r ysgol yn Wrecsam (gan gyfri pob math o le, h.y. gofal cyn ysgol, ar ôl ysgol, ac yn ystod y gwyliau, ar wahân). Mae hyn yn gynnydd o'r 5,276 o Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2014 (11.1%).

Mae dosbarthiad gofal y tu allan i oriau ysgol yn dangos anghysondeb rhwng ardaloedd, gyda nifer o ardaloedd â mynediad mwy cyfyngedig i ofal y tu allan i oriau ysgol o'u cymharu ag eraill. Y ward gyda'r nifer uchaf o leoedd gofal y tu allan i oriau ysgol yw Owrtyn, gyda 322 o leoedd. Ar hyn o bryd mae 7 ward heb leoliadau y tu allan i oriau ysgol. Fodd bynnag, mae agosrwydd y gofal y tu allan i oriau ysgol i gartref y plentyn yn llai perthnasol, gan taw'r ffactor pwysicaf ar gyfer gofal oedran ysgol yn ystod y tymor yw pa mor agos yw'r gofal y tu allan i oriau ysgol at ysgol y plentyn.

Mae'r nifer o glybiau cyn ysgol wedi gostwng ychydig ers Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2014 o 54 i 52 a bu cynnydd yn y nifer o leoedd, o 2,302 i 2,623. Mae'r nifer o glybiau ar ôl ysgol wedi gostwng ers Asesiad 2014 o 60 i 57, ond mae cynnydd yn amlwg yn y nifer o leoedd, o 1,874 i 2012. Mae

gostyngiad bach wedi bod hefyd yn y nifer o glybiau gwyliau yn Wrecsam, o 38 i 35 lleoliad, a chynnydd pellach yn y nifer o leoedd, o 1,100 i 1.227. Mae hyn yn arddangos ein hymrwymiad i wella mynediad i ddarpariaeth gwyliau ar draws y Bwrdeistref Sirol mewn ardaloedd o ddarpariaeth isel a galw uchel.

6.5.1 Darpariaeth yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau: Mae clybiau cyn ysgol ac ar ôl ysgol ar gael yn ystod y tymor (75%) ac mae clybiau gwyliau ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig (25%). Mae 100% o glybiau gwyliau ar agor dros wyliau'r haf, Hydref, Chwefror, Mai a'r Pasg. Mae 51.4% o glybiau gwyliau yn nodi eu bod ar agor dros wyliau'r Nadolig.

6.4.2 Amseroedd a hyd sesiynau'r clybiau ar ôl ysgol: Mae 98.6% o'r clybiau tu allan i'r ysgol ar agor 5 diwrnod yr wythnos. Mae hyd sesiynau yn amrywio o 15 munud i 2 awr ar gyfer clybiau cyn ysgol, 1¼ awr i 3¼ ar gyfer clybiau ar ôl ysgol, a rhwng 5 ac 11 awr ar gyfer clybiau gwyliau.

6.5.3 Hyblygrwydd: Drwy ddefnyddio'r pecyn cyflawn o ofal cyn ysgol, ar ôl ysgol, a chlybiau gwyliau, mae hynny'n cynnwys y diwrnod cyfan y mae'n rhaid i rieni weithio drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen parhaus i gynyddu mynediad at ddarpariaeth gwyliau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

6.5.4 Nifer o leoedd gofal y tu allan i'r ysgol sydd ar gael yn Gymraeg:
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg – 617 lle
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg – 0 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn bennaf gydag ychydig o Gymraeg - 4221 lle
Lleoliad Cyfrwng Saesneg– 890 lle

Mae'r mwyafrif o leoliadau yn Wrecsam yn rhai cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg (73.7%). Fodd bynnag, mae 10.8% yn lleoliad cyfrwng Cymraeg, sy'n ostyngiad o Asesiad o ADdGP 2014 (4.3%).

6.5.5 Ffioedd: Mae ffioedd clwb cyn ysgol mewn cybiau lle mae'n rhaid talu yn amrywio o £1.00 i £8.00 y sesiwn, gyda ffi gyfartalog o £3.09 fesul sesiwn.

Mae ffioedd clwb ar ôl ysgol yn amrywio o £3.00 i £22.00 y sesiwn ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda ffioedd cyfartalog o £7.32 y sesiwn. Mae hyn yn gynnydd o 13.3% ers ADdGP 2014.

Mae costau clybiau gwyliau yn amrywio o £13.00 i £33.25 y diwrnod ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda'r ffi ddyddiol ar gyfartaledd yn £22.38. Mae hyn yn ostyngiad o 4.3% ers Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2014.

6.5.6 Clwb Brecwast am Ddim: Mae cyfanswm o 28 clwb yn cynnig darpariaeth am ddim drwy'r Fenter Clwb Brecwast am Ddim.

6.5.7 Credydau Treth Gwaith, Gofal Plant â Chymorth Gyflogwr a Gofal Plant Di Dreth: Mae 72.2% o leoliadau y tu allan i oriau ysgol yn gymwys i rieni hawlio cymorth gyda'u costau gofal plant.

6.5.6 Safon: Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam mae 72.2% o leoliadau y tu allan i oriau ysgol wedi eu cofrestru ac yn cwrdd Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel y'u gosodir gan AGGCC.

6.5.7 Lleoedd Gwag: Yn ôl data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a dderbyniwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2016, roedd 1353 lle gwag ar draws lleoliadau gofal cyn ysgol, ar ôl ysgol, a chlybiau gwyliau. Mae hyn yn cynnwys lleoedd llawn amser a rhan amser. Fodd bynnag, nid yw'r data yn gyflawn gan na wnaeth nifer o leoliadau ar draws Wrecsam gwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac mae rhai lleoliadau wedi darparu gwybodaeth anghywir.

6.5.8 Crynodeb o Gryfderau a Gwendidau Allweddol

Mae nifer uchel o ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol nad ydynt wedi eu cofrestru yn parhau i gael eu rhedeg ar draws y fwrdeistref. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau sy'n cynnig gofal y tu allan i oriau ysgol am lai na dwy awr. Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu cefnogi er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio i safon dderbyniol gan ddefnyddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn gweithio tuag at gofrestriad gyda chymorth Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam.

Mae'r sector gofal y tu allan i'r ysgol yn Wrecsam yn weddol sefydlog a chynaliadwy. Mae llawer o grwpiau wedi cael cymorth i ymestyn neu ail siapio'u darpariaeth dros y tair blynedd diwethaf a thra bo llawer ohonynt yn dal i gael eu llywodraethu gan grwpiau gwirfoddol mae lefel o ymgysylltu gan eu hysgol bartner yn parhau'n uchel, sydd yn ei dro o gymorth i'w hyfywedd hir dymor.

Mae un clwb gwyliau cyfrwng Cymraeg yn cynnig lleoedd i'r rheiny sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir nad yw hyn yn caniatáu i deuluoedd sydd am wneud dewis gwahanol i'r addysg gynradd, felly mae hyn wedi ei nodi fel gwendid yn y sector ac o ganlyniad mae cam gweithredu yn ei le er mwyn ymestyn y ddarpariaeth hon.

Ychydig o leoedd sydd ar gael i blant o dan 4 oed mewn gofal gwyliau. Dyma faes sydd yn rhaid i'w ystyried gyda'r 'Cynnig Gofal Plant Cymru' sydd ar ddyfod.

Mae mwy o bwysau ar leoedd ysgolion, yn enwedig yn ein hysgolion canol tref, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol gynllunio'n fanwl er mwyn sicrhau fod digon o leoedd er mwyn cwrdd ein cyfrifoldebau statudol o safbwynt digonolrwydd gofal plant.

Mae sicrhau mynediad at hyfforddiant a chymwysterau priodol (Cymwysterau Proffesiynol mewn Gwaith Chwarae) ar adegau ac mewn lleoliadau hygyrch i'r sector hon yn parhau i fod yn heriol. Mae llawer o'r gweithlu â sawl swydd ac mae hyn yn golygu nad yw'n hawdd iddynt fynychu hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae ystyried sut i ddileu rhwystrau yn her hir dymor a ystyrir yn y cynllun gweithredu hwn.

6.6 Darpariaeth Mynediad Agored

6.6.1 Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant

Mae Tîm Datblygu Chwarae Wrecsam wedi nodi'r canlynol yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 fel cryfderau a gwendidau'r sector darpariaeth mynediad agored.

Mae Wrecsam yn ffodus o gael rhwydwaith sefydlog o ddarpariaeth chwarae mynediad agored wedi'i staffio sy'n cynnwys tri pharc chwarae antur, nifer o gynlluniau chwarae sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn ac yn ystod y gwyliau, peth darpariaeth benodol i blant anabl, tîm datblygu chwarae bach ond dylanwadol, a pherthynas flaengar rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr trydydd sector. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys pum prif ddarparwr, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Dynamic, Maes Chwarae Antur Dyffryn Gwenfro a The Venture.

Mae data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth yn darparu 12 o Ddarpariaethau Mynediad Agored, sy'n cynnig 5446 o leoedd yn ystod y tymor a 1250 o leoedd yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol. Mae'r lleoedd hyn ar gael yn Saesneg (gydag un yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol). Does dim rhestr aros gan yr un o'r darparwyr ac maent oll yn rhad ac am ddim.

Ni ystyrir y math hwn o ddarpariaeth fel 'gofal plant' yn draddodiadol, oherwydd natur y ddarpariaeth. Cydnabyddir y gallai rhieni sydd â mynediad at y ddarpariaeth hon ei ddefnyddio yn ychwanegol i'w dewisiadau gofal plant, yn enwedig lle bydd brodyr a chwiorydd hŷn yn mynychu.

6.6.2 Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae'r sector hon yn wynebu risg sylweddol yn yr hinsawdd o bwysau ariannol sydd ohoni. Mae Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Wrecsam wedi nodi fod rhaglenni cyllid mawr yn dod i ben, a bod pwysau ychwanegol ar ffynonellau cyllido lleol hefyd er mwyn cefnogi darpariaeth y gwasanaethau gwerthfawr hyn y mae cymaint o'u hangen. Rhoddir esiampl o'r pwysau cyllido a wynebir yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae isod:

> *"Yn ogystal mae Prosiect Chwarae Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru oedd wedi ei gyllido drwy 2 rownd o Raglen Chwarae Plant y Loteri Fawr bellach wedi dod i ben (er bod 'Groundwork' bellach yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu darpariaeth un diwrnod yr wythnos yn Wrecsam). Yn ogystal â hyn, mae sefydliadau trydydd sector yn ei chael hi'n fwyfwy anodd i gael cyllid ychwanegol drwy gyrff eraill sy'n rhoi grantiau, er enghraifft nid yw 'The Venture' na Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam bellach yn derbyn arian Plant*

mewn Angen oedd yn cael ei ddefnyddio i ymestyn darpariaeth a darparu cymorth ychwanegol i'r plant hynny oedd yn profi rhwystrau neilltuol o ran mynediad at gyfleoedd chwarae. Mae gostyngiadau sylweddol i gyllid y Tîm Datblygu Chwarae yn y flwyddyn ariannol i ddod hefyd wedi golygu eu bod mewn safle i barhau i reoli datblygiad a darpariaeth chwarae yn ystod y gwyliau ysgol, ond ni allant wneud cyfraniadau ariannol pellach i'r costau rhedeg sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon. O ganlyniad mae cynghorau cymuned wedi cael gwybod y bydd yn rhaid iddynt fod yn fodlon cynyddu eu cyfraniadau o oddeutu 50% os ydynt am gynnal y lefelau presennol o ddarpariaeth. Yn anffodus, mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y lefel o ddarpariaeth y mae nifer sylweddol o gynghorau cymuned yn fodlon talu amdano, neu mewn rhai achosion, at roi'r gorau i ddarparu cyllid o gwbl. (Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Wrecsam 2016)

Mae darpariaeth gwaith chwarae'r awdurdod lleol wedi derbyn canmoliaeth uchel gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a ddisgrifiodd gynlluniau chwarae mynediad agored y cyngor fel rhai "rhagorol" yn eu hadroddiad arolygu yn 2015. Rhai o feysydd gwasanaeth chwarae'r cyngor a gafodd eu canmol yn adroddiad AGGCC oedd y cysylltiadau "hynod o gryf, llawn ymddiriedaeth" y mae plant wedi eu ffurfio gyda gweithwyr chwarae; y "cysylltiadau cymunedol rhagorol" sydd wedi'u meithrin gan weithwyr yn eu hardaloedd; galluoedd y tîm a oedd yn "gymwys a phrofiadol iawn" a'u hymdeimlad tîm "eithriadol".

6.7 NANI

6.7.1 Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Nid oes unrhyw nanis wedi eu cymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant Gwirfoddol yn Wrecsam.

6.7.2 Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae gwybodaeth, cymorth, cyngor a chyfarwyddyd yn dal i fod ar gael i bawb sydd â diddordeb cofrestru fel Nani drwy Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam.

7 Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog

Mae Gofal Plant yn Wrecsam wedi ei ddadansoddi yn ôl y nifer o leoedd sydd ar gael mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, lleoliadau dwyieithog, lleoliadau cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg, a lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Yn Wrecsam, mae mwyafrif y darparwyr gofal plant yn nodi eu hunain fel lleoliadau cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg (78.1%), mae 2.3% wedi nodi eu bod yn lleoliad cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, a 9.1% fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

7.1 Lleoliadau gofal plant cyffredinol yn ôl cyfrwng iaith

Mae cyfanswm o 1025 lle gofal ar gael yn Wrecsam trwy gyfwng y Gymraeg neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn gynnydd o ADdGP 2014 pan oedd 616 lle ar gael yn y Gymraeg. Er hynny, mae 10.9% o leoedd gofal plant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn

tua 13% o boblogaeth holl drigolion Wrecsam sy'n siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011), a all awgrymu galw ychwanegol ar gyfer mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd neu rannau o Wrecsam.

Mae'r gyfran fwyaf o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael ei gyflwyno gan Gylchoedd Meithrin, sy'n darparu gofal amgylchynol a sesiynol. Mae nifer fechan o ofalwyr plant yn darparu eu gwasanaethau yn ddwyieithog, ond nid yw'r un o'r gwarchodwyr plant yn Wrecsam yn darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Gallai cynyddu recriwtio gwarchodwyr plant drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn opsiwn hyfyw a chynaliadwy i lenwi'r bylchau lle mae galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd o Wrecsam gyda phocedi o alw gan rieni.

Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i leoli yn wardiau Grosvenor, Hermitage a Phonciau ond mae hefyd ar gael ym Mryn Cefn, Brynyffynnon, Cefn, Dyffryn Ceiriog, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Mwynglawdd, Pant, Penycae a Rhosnesni.

Mae Mudiad Meithrin wedi darparu'r isod er mwyn dangos y dangos y darlun cynyddol o ddarpariaeth cyn ysgol Cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol:

Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg nawr Meithrin Mwy ar y safle yn darparu gofal cofleidiol i'r plant hynny sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn yr ysgol. Mae yna 4 Darparwr Dechrau'n Deg a 6 darparwr Addysg Gynnar. Mae'r mwyafrif o'r Cylchoedd yn derbyn plant o 2 oed. Mae gofal dydd llawn ar gael mewn 3 o'r lleoliadau gydag un lleoliad hefyd yn darparu clwb brecwast. Yn ogystal â'r cylchoedd Meithrin mae yna 10 cylch Ti a Fi yn yr ardal.

CYLCH	MEITHRIN MWY	CYLCH	ADDYSG GYNNAR	DECHRAU'N DEG	GOFAL DYDD LLAWN AR GAEL	CLWB BRECWAST
Hill Street		x	x			
Maes y Gornel		x	x			
Ysgol I.D. Hooson	x					
Ysgol Plas Coch	x					
Bro Alun	x	x	x	x	x	x
Pant				x		
Brynhyfryd		x	x	x	X (3 diwrnod)	
Glyn Ceiriog	x	x	x			
Dechrau'n Deg Bodhyfryd				x		
Bodhyfryd	x	x				
Min Y Ddol	x	x	x	x	x	

Yn Wrecsam mae nifer o warchodwyr plant Portiwgeaidd sy'n darparu cymorth i deuluoedd sy'n siarad Portiwgaleg ac sy'n siarad Saesneg. Maent wedi datblygu busnesau llwyddiannus o safon uchel drwy gydnabod fod anghenion y rhieni hyn yn cynnwys dechrau'n gynnar a gorffen yn hwyr er mwyn gweddu i batrymau gwaith sifft. Mae gan y grŵp hwn o warchodwyr plant hefyd beirianwaith cefnogaeth gan gymheiriaid ac mae eu busnesau'n ffynnu.

Mae gan Wrecsam hefyd nifer o leoliadau gofal plant sesiynol canol tref sy'n gweithio gyda phroffil ieithyddol amrywiol. Roedd un grŵp yng nghanol y dref yn cefnogi plant o 5 o genhedloedd gwahanol, yn ogystal â phlant oedd yn siarad Saesneg a Chymraeg dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2015/2016). Mewn achosion mwy penodol mae lleoliadau yn cysylltu â thîm gofal plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Addysg Gynnar wedi'i Hariannu a chydweithwyr Dechrau'n Deg er mwyn eu cefnogi gyda chwrdd gofynion teuluoedd o gefndiroedd gwahanol, fodd bynnag mae sawl lleoliad yn gweithredu mewn modd gynhwysol ac yn gweithio'n galed er mwyn cwrdd gofynion amrywiol rhieni a gofalwyr.

19. Gofal plant ar gyfer plant anabl

Mae gan bob lleoliad gofal plant gyfrifoldeb cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) i ddarparu gwasanaeth cynhwysol. Mae darpariaeth ar gyfer plant anabl yn Wrecsam trwy leoliadau gofal plant prif ffrwd a nifer fach o leoliadau arbenigol. Mae'r lleoliadau arbenigol hyn yn cynnwys *Dynamic*, sy'n gweithredu darpariaeth anghofrestredig i blant dros wyth oed, Ysgol Sant Christopher's, sy'n darparu gofal y tu allan i oriau ysgol, *Your Space,* sy'n darparu lleoedd ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Fodd bynnag, mae angen hyrwyddo'r Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant er mwyn galluogi plant anabl i dderbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam wedi bod yn gweithio er mwyn sicrhau fod yr holl leoliadau yn gynhwysol ac yn gallu darparu gofal plant ar gyfer plant anabl a phlant gydag anghenion ychwanegol. Mae 91.3% o leoliadau yn adrodd eu bod yn gwbl gynhwysol, mae 3.3% ond yn teimlo'n gyfforddus yn gofalu am blant sydd â chyflyrau y maent wedi eu hyfforddi ynddynt, ac mae 5.4% yn dweud nad ydynt yn gallu darparu ar gyfer plant anabl. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant a chlybiau brecwast am ddim.

Mae Tîm Chwarae Wrecsam hefyd yn cynnig cymorth i blant anabl gael mynediad at leoedd ar gynllun chwarae drwy eu Prosiect Cynhwysiant.

Yn ôl data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a dderbyniwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2016, mae 258 o blant anabl / plant sydd ag anghenion ychwanegol yn cael gofal plant yn Wrecsam ar draws nifer ac amrywiaeth o leoliadau.

Mae Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn darparu cyllid Dwylo Ychwanegol er mwyn darparu staff ychwanegol mewn lleoliadau sy'n cefnogi plant anabl. Yn 2015 – 2016 cafodd 61 o blant eu cefnogi gan staff ychwanegol o dan y cynllun hwn ac yn 2016 - 2017 cafodd 54 o blant eu cefnogi . Mae'r cynllun yn parhau i ddarparu cymorth gwerthfawr i sicrhau fod y lleoliadau yn gallu darparu ar gyfer anghenion y plant sydd am fynychu eu lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer sesiynau diwrnod hirach mewn Meithrinfa neu ar gyfer gofal plant yn ystod y gwyliau.

20. Costau gofal plant

Mae gan leoliadau gofal plant yn Wrecsam amrywiaeth o wasanaethau y maent yn codi tâl amrywiol amdanynt e.e. fesul grwpiau oedran mewn sawl meithrinfa ddydd. Mae amrywiaeth o strwythurau codi tâl hefyd ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys ffioedd fesul awr, ffioedd dyddiol, a ffioedd wythnosol. At bwrpas Adolygiad Blynyddol yr ADdGP, mae cyfraddau wedi eu newid i uned gyffredin ac mae ffioedd cyfartalog wedi eu cymryd ar draws yr holl leoliadau.

Costau gofal plant fesul math o ddarpariaeth

Lleoliad a'r Ffi a Godir	Isafswm Costau	Uchafswm Costau	Costau Cyfartalog
Ffioedd gofal dydd llawn fesul wythnos (50 awr)	£141.50	£226.00	£181.98
Ffioedd gofal dydd llawn fesul diwrnod	£17.00	£40.50	£34.28
Ffioedd gofal dydd llawn fesul awr	£3.04	£4.53	£3.64
Ffioedd gofal cyn ysgol fesul sesiwn	£0.00	£8.00	£3.09
Ffioedd gofal cyn ysgol fesul awr	£0.00	£5.33	£3.04
Ffioedd gofal ar ôl ysgol fesul sesiwn	£3.00	£22.00	£7.32
Ffioedd gofal ar ôl ysgol fesul awr	£1.50	£7.33	£2.97
Ffioedd gwyliau fesul sesiwn	£12.50	£36.00	£22.38
Ffioedd gwyliau fesul awr	£1.30	£4.00	£2.45
Ffioedd gwarchodwyr plant fesul awr	£2.73	£6.50	£3.78
Ffioedd darpariaeth sesiynol fesul sesiwn	£0.00	£13.50	£8.15
Ffioedd darpariaeth sesiynol fesul awr	£0.00	£4.29	£2.75

Y cyfanswm cyfartalog (canolrif) y mae rhieni yn ei dalu am ofal plant yw £3.10 yr awr, o'i gymharu â £3.03 yn 2014. Gwarchodwyr plant sy'n darparu'r ffurf ddrytaf o ofal plant, sy'n codi cyfartaledd o £3.78 yr awr, a'r nesaf yw clybiau cyn ysgol sy'n codi cyfartaledd o £3.04 yr awr. Y ffurf rataf o ofal plant yw darpariaeth gwyliau, gyda ffi gyfartalog o £2.45 yr awr.

Mae cymharu costau gofal plant cyfartalog yng Nghymru a Wrecsam yn dangos bod prisiau yn Wrecsam yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd a chlybiau tu allan i'r ysgol.

Cymharu costau gyda Wrecsam, Cymru a Lloegr am ddarpariaeth gofal plant fesul wythnos*

*yn seiliedig ar 25 awr o ofal ar gyfer gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd a 15 awr o ofal am glybiau y tu allan i'r ysgol

Rhanbarth	Gwarchodwr Plant		Meithrinfa Ddydd		Clwb Tu Allan i'r Ysgol	
	2015	2016	2015	2016	2015	2016
Wrecsam	£93.85	£95.00	£90.25	£94.00	£40.50	£43.00
Cyfartaledd Cymru	£96.81	£96.51	£104.32	£110.16	£49.74	£45.40
Cyfartaledd Lloegr	£105.28	£105.33	£117.30	£118.13	£47.91	£48.90

Ffynhonnell: Arolwg Costau Gofal Plant Ymddiriedolaeth Gofal Dydd a Theuluoedd 2015 a 2016

10. Deall Anghenion Rhieni / Gofalwyr

10.1 Defnydd Cyfredol

Cynhaliwyd ymgynghoriadau rhieni / gofalwyr rhwng mis Medi a Rhagfyr 2016 gan ddefnyddio'r holiadur a gytunwyd arno a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yr holiadur hwn ar gael ar-lein, ar Eich Llais Wrecsam, a'r nod oedd casglu barn rhieni a gofalwyr ar y farchnad gofal plant ar draws Bwrdeistref Wrecsam. Yn ogystal, anfonwyd holiaduron ymgynghori at ysgolion, lleoliadau gofal plant a drwy bartneriaid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i'w rhannu ymysg rhieni. Mae Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam wedi cynnwys rhieni mewn cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori lle nodwyd nifer isel o ymatebion, er mwyn ceisio darparu persbectif mor eang â phosib er mwyn cyflwyno'r darlun mwyaf dibynadwy posib o anghenion rhieni / gofalwyr.

Nifer siomedig o isel o ymatebion a gafwyd o'r arolwg eleni. Roedd adborth gan rieni yn nodi fod hyd yr holiadur yn rheswm pam nad oeddynt am ei gwblhau ac roedd cymhlethdod y wybodaeth yn golygu nad oedd yn hawdd i'w gwblhau, yn arbennig os oedd mwy nac un plentyn gan y rhiant neu os oedd trefniadau gofal plant gwahanol ar gyfer pob plentyn. Mae Cyngor Wrecsam wedi cymryd yr agwedd yn barhaol o safbwynt ymgynghori gyda rhieni taw'r bobl hynny sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf gyda'u trefniadau gofal plant yw'r rheiny a fydd yn cymryd yr amser i ddweud wrthym am eu profiadau, sy'n golygu fod yr adborth o'r ymgynghoriad, er ei fod yn weddol isel mewn nifer, yn darparu gwybodaeth bwysig y dylem ei ystyried wrth asesu angen nas diwallwyd.

Nid yw'n bosib darparu dadansoddiad yn hyderus o ran lefelau penodol o leoedd gofal plant sydd yn angenrheidiol yn erbyn unrhyw fath penodol o ofal plant oherwydd y lefelau isel o ymatebion a dderbyniwyd gan rieni. Ni ellir dwyn unrhyw ddadansoddiad ystadegol na chynrychiolaeth ystyriol o'r galw ar gyfer poblogaeth Wrecsam o'r 232 o ymatebion a dderbyniwyd felly mae'r cyflwyniad o'r galw am ofal plant isod yn gyffredinol a nis bwriedir iddo fod yn

gynrychiolaeth bendant o alw gan rieni. Dylid cynnal darnau penodol o ymchwil marchnad ar gyfer datblygu a symud unrhyw ddarpariaeth gofal plant ymlaen.

Derbyniwyd cyfanswm o 232 ymateb yn cynrychioli 345 o blant. O'r 345 o blant, roedd gan 100 ohonynt ryw fath o amhariad neu anabledd. O'r ymatebion, roedd 45% yn defnyddio gofal plant ar gyfer eu holl blant, 18% yn defnyddio gofal plant ar gyfer rhai o'u plant, ac roedd 4% yn defnyddio gofal plant ac yn bwriadu defnyddio gofal plant ar gyfer plentyn nad oedd wedi ei eni eto. Mae 27 o'r ymatebwyr yn magu eu plant ar eu pennau eu hunain, ac roedd 18 o ymatebwyr yn ystyried eu hunain neu eu partner yn anabl neu â salwch nychus hir dymor.

10.2 Dadansoddiad

Nid yw'n bosib cymharu'n uniongyrchol gydag arolygon rhieni blaenorol oherwydd yr angen i ddefnyddio arolwg safonol ar gyfer y cyfnod asesu hwn. Ble bo'n bosib, dangosir tebygrwydd er mwyn amlygu patrymau dros gyfnod o amser.

Dangosodd yr arolwg mai'r mathau o ofal plant a ddefnyddir fwyaf aml gan ymatebwyr sy'n defnyddio gofal plant yn Wrecsam, yw gofal y tu allan i'r ysgol (gofal cyn ysgol (50), gofal ar ôl ysgol (58), gofal yn ystod y gwyliau (41)) a Gofal Dydd Llawn (meithrinfeydd dydd llawn (43)) sy'n debyg i ganfyddiadau pob ymgynghoriad arall gyda rhieni.

Ymatebodd 62 o ymatebwyr (70 yn 2011) fod ffrindiau neu deulu yn darparu gofal plant anffurfiol. Ers 2011 mae hyn yn parhau i fod yn lefelau gweddol uchel o ystyried y nifer o ymatebwyr i'r arolwg sy'n cynnal y patrymau lefel uchel a nodwyd yn 2011, wnaeth wyrdroi'r patrwm blaenorol.

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr ymatebion i'r cwestiwn *"Beth yw eich prif resymau dros ddefnyddio gofal plant?"*

Rwy'n mynd i'r gwaith	117
Rwy'n gwneud gwaith gwirfoddol di dâl	4
Rwy'n astudio	9
Rwy'n chwilio am waith	2
Rwy'n chwilio am waith neu hyfforddiant	0
Manteision cymdeithasol neu addysgol i fy mhlentyn	16
Lleoedd a Gynorthwyir	0
Cymryd mantais o hawl Blynyddoedd Cynnar	4
Cymryd mantais o hawl Dechrau'n Deg	3
Arall (defnydd achlysurol)	2

Derbyniwyd 103 o ymatebion yn nodi nad oedd y teulu yn defnyddio gofal plant. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhesymau a nodwyd ynglŷn â pham nad yw'r teulu yn defnyddio gofal plant ffurfiol ar hyn o bryd.

	Nifer yr Ymatebion	Canran yr ymatebion
Mae fy mhlant yn ddigon hen i edrych ar eu hôl eu hunain	20	19%
Rydw i / mae fy mhartner yn rhiant sy'n aros gartref	11	11%
Mae fy mhartner / fy nheulu / fy ffrindiau yn edrych ar ôl fy mhlant	34	33%
Nid oes gofal plant ar gael ar yr amser pan fyddaf ei angen	10	10%
Nid oes gofal plant ar gael sy'n diwallu anghenion ychwanegol fy mhlentyn	8	8%
Nid oes gofal cofleidiol na gofal plant ar ôl ysgol yn ysgol fy mhlentyn	8	8%
Nid oes gofal plant yn y lleoliad cywir	7	7%
Nid oes gofal plant ar gael sy'n diwallu anghenion diwylliannol fy mhlentyn	2	2%
Nid oes gofal plant cyfrwng Cymraeg addas	3	3%
Mae gofal plant yn rhy ddrud	33	33%
Rwy'n cael problemau gyda chludiant	2	2%
Amherthnasol neu ymateb arall	21	22%
Gofal gan neiniau a theidiau, dim angen, rhiant yn gweithio oriau ysgol, dim digon hyblyg, neb yn gallu darparu BSL i mi a fy mhlentyn		

Gofynnwyd i'r rhieni hyn nodi beth fyddent yn chwilio amdano mewn darparwr gofal plant pe byddent yn mynd i chwilio am ofal plant yn y dyfodol. Yr ymateb mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd gofal plant fforddiadwy o safon uchel, yn agos at ysgol y plentyn, gyda chyfleoedd da i chwarae, sy'n cynnig oriau hyblyg neu ddarpariaeth ad hoc. Sgoriodd opsiynau talu hyblyg yn uchel hefyd.

10.3 Defnydd rhieni o ofal plant yn ôl oedran y plentyn

Fel mewn adroddiadau ADdGP blaenorol, meithrinfeydd dydd yw'r math o ofal plant a ddefnyddir fwyaf ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed, yna darpariaeth cylch chwarae a chylch chwarae mwy. Darpariaeth rhan amser yw'r atebion mwyaf cyffredin ar gyfer y grŵp oedran hwn. Ar gyfer plant rhwng 5 a 7, ac 8 ac 11 y ffurf fwyaf poblogaidd o ofal plant yw clybiau cyn ac ar ôl ysgol, yna darpariaeth gwyliau. Ychydig iawn o rieni ddywedodd eu bod yn defnyddio gofal plant ar gyfer plant sydd rhwng 11 ac 14 oed, ond o'r rhai oedd yn defnyddio gofal plant, y math mwyaf poblogaidd oedd darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol a

gofal yn ystod y gwyliau. Mae'r defnydd isel o ofal plant ymysg rhieni plant 12 - 14 oed yn dangos patrwm sy'n gyson â chanlyniadau ADdGP 2011 a 2014, ond efo mae'n adlewyrchu'r gyfradd isel o ymateb gan rieni plant 11- 14 oed. Yn ogystal â hyn, wrth ddod i gasgliad am y ffurf fwyaf cyffredin o ofal plant a ddefnyddir yn Wrecsam, dylid ystyried cyfradd cwblhau'r arolwg, gan i'r gyfradd cwblhau uchaf ddod gan rieni plant 0 - 4 oed. Mae hefyd yn annhebygol fod rhieni plant sydd o oedran ysgol yn defnyddio gofal plant llawn amser yn ystod amser tymor yr ysgol, nid yw wedi bod yn glir o'r canlyniadau ond gellid cymryd hynny yn ganiataol gan fod y plant o oedran ysgol statudol.

10.4 Defnydd rhieni o hawliau am ddim

Gofynnwyd cwestiynau penodol er mwyn gweld os yw rhieni yn cymryd mantais o'r hawl gofal plant am ddim ar gyfer rhieni cymwys o dan gynlluniau Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar wedi'i Hariannu. O'r rheiny wnaeth gwblhau'r arolwg oedd â phlant o oedran cymwys, roedd 29 o blant yn manteisio ar eu hawl 3 a 4 oed, doedd 4 ddim yn gallu manteisio arno gan nad oedd ar gael yn eu lleoliad o ddewis ac roedd 8 eisoes mewn gofal plant llawn amser yn rhywle arall. Mae gofal plant ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y rhai sydd heb ddefnyddio eu hawl yn cynnwys gofal cofleidiol (meithrinfa mwy / sesiwn cylch chwarae prynhawn) a chlwb brecwast fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer y rhieni hyn.

Ar gyfer y 36 o blant dwy oed a nodwyd yn adran F, roedd 10 yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg a defnyddiodd 7 y cynnig. Nododd 2 riant na allent gael lle gyda'u darparwr o ddewis a dywedodd 1 nad oedd lle cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt. Nid oedd 1 rhiant eisiau'r lle yn y lleoliad lleol ac roedd 13 yn cydnabod nad oedd hwn yn hawl yr oeddynt yn gymwys amdano.

10.5 Galw'r Dyfodol

Dangosodd y rhieni hynny a nododd eu hanghenion gofal plant ar gyfer y dyfodol mai eu hoff ddewis fyddai gwasanaeth Gofal Dydd Llawn gan feithrinfa neu warchodwr plant, llawn amser, i'w defnyddio er mwyn eu cynorthwyo i fynd yn ôl i weithio. Dim ond 27 o ymatebion a gafwyd i elfen hon yr arolwg ac 18 ymateb pellach sy'n awgrymu y byddent yn edrych at deulu a ffrindiau er mwyn darparu gofal plant.

10.6 Cymorth Ariannol

Dim ond 32 ymatebwr nododd eu bod yn cael cymorth credyd gweithio ac roedd y mwyafrif helaeth yn defnyddio hwn tuag at gostau meithrinfa neu ofal plant y tu allan i'r ysgol. Dywedodd 122 o ymatebwyr nad oeddynt yn hawlio Elfen Gofal Plant y Dreth Gweithio a Chredyd Cynhwysol. Nid yw 83 o ymatebwyr yn bwriadu hawlio yn y dyfodol a nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn gwybod nad ydynt yn gymwys.

Nid yw 145 o ymatebwyr yn derbyn cymorth gan Ofal Plant Di Dreth na Gofal Plant â Chymorth Cyflogwr yn erbyn 28 sydd yn eu derbyn. Eto mae'r mwyafrif helaeth yn ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth Meithrinfa. Nododd mwy o bobl (46) nad ydynt yn gwybod am yr hawl yma na Chredyd Treth neu Gredyd Cynhwysol (32) ac mae cyfran dda yn ansicr os ydynt yn gymwys. Mae angen gweithio i hyrwyddo'r hawliau newydd i rieni o dan Ofal Plant Di Dreth ac mae hyn yn flaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu wrth symud ymlaen.

10.7 Barn Rhieni ar Ofal Plant

Gofynnwyd i rieni a nododd eu bod yn defnyddio gofal plant i gwblhau rhan bodlonrwydd rhieni'r arolwg. Mae'r canlyniadau yn y tabl isod:

Wrth feddwl am eich gofal plant, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r canlynol?	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod	Amherthnasol
Rwy'n fodlon gyda safon fy ngofal plant yn ystod y tymor	102	3	6	7
Rwy'n fodlon gyda safon fy ngofal plant yn ystod y gwyliau	73	14	9	22
Mae dewis da o ofal plant ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.	48	37	29	4
Nid oes gofal plant ar gael ar yr adegau pan fyddaf ei angen - dim ond ychydig o ddewis sydd o ran y math a'r gwasanaeth gofal plant sydd ar gael.	29	49	10	30
Mae gofal plant wedi ei leoli yn dda	85	13	12	8
Does dim gofal plant ar gael ar gyfer oedran fy mhlentyn	12	60	12	34
Mae gofal plant yn addas ar gyfer anghenion fy mhlentyn	89	12	7	10
Hoffwn i fy mhlentyn fynychu mwy o ofal plant	28	53	8	29
Mae gofal plant yn rhy ddrud	83	16	11	8
Byddai'n well gen i ddefnyddio teulu / ffrindiau	39	44	18	17
Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n methu neu sy'n annibynadwy	11	71	9	27
Mae diffyg gofal plant yn fy rhwystro rhag cael mynediad at waith neu hyfforddiant	21	60	8	29
Rwy'n gwybod ymhle i gael gwybodaeth am ofal plant	76	23	12	7

Rwy'n gwybod ymhle i gael gwybodaeth ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant	51	43	12	12
Mae digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg	19	26	37	36
Mae digon o ofal plant ar gael yn fy newis iaith	55	21	19	23

Sut gellid gwella hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant?		
	Yn Ystod y Tymor	Gwyliau Ysgol
Dim angen gwelliant	26	20
Ar gael cyn 8am	34	30
Ar gael cyn ysgol 7.30 - 9.00	38	20
Bore 9am – 12pm	2	5
Amser cinio 12pm - 1pm	1	3
Prynhawn 1 – 3.30pm	3	4
Ar ôl ysgol 3.30- 6pm	26	13
Ar gael ar ôl 6pm	22	16
Gofal dydd llawn 8am – 6pm	9	14
Gofal dros nos	3	5
Gofal penwythnos	11	7
Lleoliad yn agosach at gartref	7	4
Lleoliad yn agosach at y gwaith	4	3
Lleoliad yn agosach at astudio	2	1
Lleoliad yn agosach at ysgol brodyr/chwiorydd	0	1
Gofal plant sy'n well o ran diwallu anghenion unigol fy mhlentyn	8	7
Argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg	15	14
Argaeledd gofal plant cyfrwng Saesneg	1	1
Argaeledd gofal plant dwyieithog	7	6
Mwy fforddiadwy	56	46
Arall	47	120

Yn gyffredinol mae'r ymatebion rydym wedi eu derbyn i'r arolwg bodlonrwydd rhieni a'r ymatebion a gofnodwyd yn y grwpiau ffocws wedi nodi fod rhieni yn hapus gyda'r farchnad gofal plant yn Wrecsam. Mae'r broses ymgynghori wedi amlygu bod bylchau yn parhau yn y ddarpariaeth ar gyfer plant anabl, mewn gofal plant hyblyg ac mewn gofal plant sydd ar gael ar oriau annodweddiadol, gan gynnwys fin nos.

Mae rhieni yn teimlo fod gofal plant yn ddrud ac mae hyn yn parhau i fod yn rhwystr i rai rhieni rhag cael mynediad at drefniadau gofal plant. Mae trafodaethau gyda rhieni drwy'r broses ymgynghori wedi nodi fod rhieni mewn teuluoedd nad ydynt yn gweithio yn gweld y ffaith y bydd rhaid iddynt dalu am ofal plant fel rhwystr rhag dychwelyd i weithio ac yn arbennig i hyfforddi. Dywedodd un teulu na fyddent yn ystyried mynediad at waith na hyfforddiant tan fod eu plant o oedran ysgol gan eu bod yn teimlo na fyddai'r math o waith sydd ar gael iddyn nhw yn talu'n ddigonol i dalu am gostau gofal plant yn ogystal â chostau byw. Mae cost gofal plant yn ystod y gwyliau yn parhau i fod yn fater sy'n effeithio ar rieni yn ogystal â'r diffyg hyblygrwydd canfyddedig o ran lleoedd gofal plant. Adroddodd rhieni fod telerau talu llym gan gynnwys talu pan na fydd eu plant yn mynychu (er mwyn cadw'r lle yn agored iddynt) a'r ffaith fod rhai lleoliadau angen cyfnod hir o rybudd er mwyn newid dyddiau neu oriau presenoldeb yn effeithio ar eu gallu i wneud gwaith ychwanegol neu weithio goramser.

Er bod lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, mae rhieni yn parhau i deimlo bod mwy o angen gofal plant yn yr oriau cyn ac ar ôl ysgol, yn enwedig yn hwyrach fin nos na sy'n cael ei gynnig gan y rhan fwyaf o gynigion gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae gofal plant cyfrwng Cymraeg yn dal i gael ei nodi fel maes lle mae angen gwelliant ac mae diffyg darpariaeth dydd llawn drwy gyfrwng y Gymraeg yn bodoli.

Tra bo'r darlun cyffredinol yn ymddangos yn gadarnhaol ar gyfer y mwyafrif helaeth o bobl sy'n defnyddio gofal plant yn Wrecsam, mae nifer sylweddol o bobl yn wynebu anawsterau yn eu bywydau o ganlyniad i faterion gofal plant sydd yn methu. O safbwynt y gwelliannau sydd eu hangen i ddarpariaeth gofal plant yn Wrecsam, dywedodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn hapus gyda gofal plant yn Wrecsam ac nad oedd angen gwneud unrhyw welliannau.

10.8 Ymholiadau i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn darparu gwybodaeth gofal plant a chyngor ar ofal plant, budd-daliadau a gwasanaethau plant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Er mwyn dangos y galw, mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ym monitro pob ymholiad gofal plant. Mae pob ymholwr yn derbyn gwybodaeth ddilynol ar ofal plant lleol a chredydau treth, yn ogystal â ffurflen sylwadau sy'n nodi os yw gofal plant wedi ei ddarganfod ddeufis ar ôl yr ymholiad gwreiddiol. Mae'r holl wybodaeth ymholi yn cael ei goladu bob chwarter ac yn cael ei fapio yn erbyn data cyflenwi er mwyn gallu nodi a diwallu unrhyw fylchau yn y galw, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, cafwyd 752 o ymholiadau gan rieni i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ynglŷn â gwasanaethau gofal plant. Rhoddir manylion ar y math o ofal oedd yn cael ei geisio isod. Gwaned 893 o ymholiadau pellach drwy'r cyfleuster chwilio gofal plant ar-lein.

<u>Nifer o ymholiadau gofal plant a dderbyniodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam gan rieni</u>



Derbyniwyd 127 ymholiad ychwanegol ynglŷn â chymorth costau gofal plant.

O safbwynt y wybodaeth am ddarpariaeth gofal plant, roedd y gyfran fwyaf ynglŷn â gwasanaethau gwarchod plant, ond nid yw hyn yn golygu o reidrwydd fod galw uwch am warchodwyr plant, dim ond mai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yw'r unig ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am wasanaethau gwarchod plant.

Mae rhieni yn aml yn ymwybodol o feithrinfeydd dydd oherwydd hysbysebu proffil uchel, ac yn ymwybodol o glybiau ysgol drwy eu hysgolion lleol. Fodd bynnag, nid yw gwarchodwyr plant yn hysbysebu eu gwasanaeth yn eang fel arfer allan y tu hwnt i'w cymunedau eu hunain.

Fesul ward, daeth y gyfran uchaf o ymholiadau i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam am ofal plant yn 2015 – 16 gan deuluoedd oedd yn byw yn Nwyrain a De Gwersyllt, Brychdyn Newydd, Ponciau a Whitegate, tra daeth y nifer isaf o ymholiadau o Barc Borras, Dyffryn Ceiriog, Merffordd a Hoseley a Phant.

Anfonir ffurflen sylwadau gyfun nawr bob deufis ar ôl yr ymholiad cychwynnol, sy'n cynnwys gwybodaeth i nodi os daeth yr ymholydd o hyd i ofal plant. Llwyddodd 82% o rieni a ymatebodd i'r cwestiwn hwnnw i ddod o hyd i ofal plant oedd yn diwallu eu hanghenion. Gyda'i gilydd, adroddodd 10 o ymholwyr eu bod wedi methu dod o hyd i ofal, ac o'r rheiny methodd 3 gychwyn ar hyfforddiant neu astudiaeth, neu gychwyn neu barhau i weithio. Roedd yn rhaid i 6 arall ddibynnu ar deulu neu ffrindiau am gymorth. Fodd bynnag, er hyn, ni nodwyd bylchau arwyddocaol.

11. Addysg Gynnar wedi'i Hariannu

Mae Addysg Gynnar rhan amser wedi'i hariannu yn parhau i fod ar gael i bob plentyn ar gyfer y tymor sy'n dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn cael ei selio ar ddalgylchoedd ysgolion ac o fis Ionawr 2017 roedd yn cael ei ddarparu mewn 64 lleoliad ar draws Wrecsam drwy gyfuniad o ysgolion a lleoliadau a gymeradwywyd. O'r rhain, roedd 52 ohonynt yn ddarparwyr wedi eu cymeradwyo ac wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol i ddarparu lleoedd Addysg Gynnar am ddim i blant 3 oed. Yn 2017 ni ddynodwyd unrhyw warchodwyr plant fel lleoliadau cymeradwy i ddarparu Addysg Gynnar.

Manylir ar y gymysgedd o ddarparwyr Addysg Gynnar yn Wrecsam ym mis Ionawr 2017 isod:

Ward	Lleoliadau cylch chwarae	Lleoliadau Meithrinfa Ddydd	Lleoliadau Ysgol	Cyfanswm y Lleoliadau
Acton	1	0	0	**1**
Parc Borras	0	1	0	**1**
Bronington	2	0	0	**2**
Brymbo	1	0	0	**1**
Bryn Cefn	0	0	1	**1**
Brynyffynnon	2	3	0	**5**
Cartrefle	0	2	1	**3**
Cefn	3	0	0	**3**
Dyffryn Ceiriog	1	0	1	**2**
Gogledd y Waun	0	0	1	**1**
De'r Waun	1	0	0	**1**
Coedpoeth	2	0	0	**2**
Erddig	1	0	0	**1**
Esclus	1	0	0	**1**
Garden Village	1	0	0	**1**
Dwyrain a Gorllewin Gresffordd	1	0	0	**1**
Grosvenor	0	2	0	**2**
Gwenfro	0	0	0	**0**
Dwyrain a De Gwersyllt	2	0	1	**3**

Gogledd Gwersyllt	2	0	0	**2**
Gorllewin Gwersyllt	0	1	0	**1**
Hermitage	0	0	1	**1**
Holt	1	1	0	**2**
Johnstown	1	0	0	**1**
Little Acton	1	0	0	**1**
Llangollen Wledig	1	0	1	**2**
Llai	1	0	0	**1**
Maesydre	0	0	0	**0**
Marchwiail	1	0	1	**2**
Merffordd a Hoseley	1	0	0	**1**
Y Mwynglawdd	0	0	1	**1**
Brychdyn Newydd	0	1	0	**1**
Offa	1	0	0	**1**
Owrtyn	1	1	1	**3**
Pant	1	0	0	**1**
Penycae	0	0	0	**0**
Pant	1	0	0	**1**
Penycae	0	0	0	**0**
Penycae a De Rhiwabon	1	0	0	**1**
Plas Madoc	1	0	0	**1**
Ponciau	1	0	0	**1**
Queensway	0	0	1	**1**
Rhosnesni	1	0	0	**1**
Yr Orsedd	1	1	0	**2**
Rhiwabon	0	0	1	**1**
Smithfield	0	0	0	**0**
Stansty	1	0	0	**1**
Whitegate	1	0	0	**1**
Wynnstay	0	0	0	**0**
Cyfanswm	**39**	**13**	**12**	**64**

O'r data uchod, mae'r dosbarthiad o leoliadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar draws Wrecsam fel a ganlyn:

- Mae'r nifer uchaf o leoliadau cylch chwarae yn cynnig Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yng Nghefn, gyda 3 lleoliad;
- Mae'r nifer uchaf o feithrinfeydd dydd yn cynnig Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ym Mrynffynnon, gyda 3 lleoliad;
- Does dim ward gyda mwy nag 1 lleoliad ysgol yn cynnig Addysg Gynnar wedi'i Hariannu;
- Mae'r nifer uchaf o leoliadau cyffredinol yn cynnig Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ym Mrynffynnon, gyda 5 lleoliad.

Bydd cyfanswm o 686 o blant yn cael mynediad at leoliad Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn nhymor yr haf 2017.

Darpariaeth yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau: Mae 100% o leoliadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar gael yn ystod y tymor dros dymhorau'r Gwanwyn a'r Haf.

Amseroedd a hyd sesiynau pan ddarperir Addysg Gynnar wedi'i Hariannu: Darperir Addysg Gynnar wedi'i Hariannu am gyfanswm o 10 awr yr wythnos, a gall fod un ai am bedwar sesiwn o 2 ½ awr neu bum sesiwn o 2 awr.

Hyblygrwydd: Ni ellir defnyddio Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar ei phen ei hun i alluogi rhieni i fynd i weithio neu i hyfforddi ac nid bwriad Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yw bod yn fath o ofal plant. Mae gan rieni ddewis o sesiynau unigol (mewn ysgolion neu gylchoedd chwarae / Cylchoedd Meithrin), sesiynau cofleidiol neu ofal integredig ac Addysg Gynnar wedi'i Hariannu, fel y'i darperir gan feithrinfeydd dydd. Fodd bynnag, er bod digon o ddarpariaeth i bob plentyn 3 oed cymwys yn Wrecsam, mae rhai plant yn methu manteisio ar Addysg Gynnar wedi'i Hariannu gan nad yw rhieni am symud eu plant o'u meithrinfa ddydd neu warchodwr plant cyfredol, gan y gallent orfod parhau i dalu eu lleoliad gofal plant er mwyn cadw lle'r plentyn yn agored dros oriau'r Addysg Gynnar wedi'i Hariannu.

Nifer o leoliadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu sydd ar gael yn Gymraeg:
Lleoliad Cyfrwng Cymraeg – 10 lleoliad
Lleoliad cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg – 0 lleoliad
Lleoliad cyfrwng Saesneg gan fwyaf gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg – 54 lleoliad
Lleoliad Cyfrwng Saesneg – 0 lleoliad

Mae 10 lleoliad yn cynnig Addysg Gynnar wedi'i Hariannu statudol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Wrecsam. Mae'r holl leoliadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn ystod eu sesiynau fel rhan o gwricwlwm y Cyfnos Sylfaen. Mae lleoliadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mrynffynnon, Cefn, Dyffryn Ceiriog, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Hermitage a Phant.

Ansawdd: Mae pob lleoliad na chynhelir sy'n darparu Addysg Gynnar wedi'i Hariannu wedi eu cofrestru gan AGGCC ac mae pob lleoliad Addysg Gynnar yn cael eu harchwilio gan Estyn.

12. Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw rhaglen benodol Addysg Gynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd gyda phlant o dan 4 oed, sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Nod y rhaglen yw helpu plant a phobl ifanc i gael y dechreuad gorau posibl mewn bywyd ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol. Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar blant ac yn cefnogi rhieni/gofalwyr i ddarparu'r amgylchedd mwyaf cadarnhaol ar gyfer lles eu plant. Drwy adnabod anghenion a darparu cymorth yn gynnar, nod Dechrau'n Deg yw gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u bywyd yn y dyfodol.

Mae elfennau craidd y rhaglen yn deillio o amrywiaeth o opsiynau sydd wedi eu profi i ddylanwadau canlyniadau positif ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofal Plant rhan amser o safon uchel am ddim rhwng 2 a 3 oed
- Gwasanaeth Ymweliadau Iechyd Dwys
- Cymorth i rianta gan gynnwys mynediad at raglenni rhieni
- Datblygiad Iaith a Chyfathrebu Cynnar

Mae darparu gofal plant o safon uchel i blant o 2 – 3 oed yn ffurfio rhan bwysig o'r cynnig a ddarperir o dan fenter Dechrau'n Deg, gyda'r nod o wella canlyniadau plentyn wrth baratoi ar gyfer yr ysgol ac yn y tymor hir. Mae cymhwyster cod post yn berthnasol er mwyn i blant dderbyn y gwasanaeth hwn am ddim, oherwydd natur benodol y rhaglen, a gynigir i deuluoedd cymwys mewn ardaloedd daearyddol penodol o Wrecsam, a bennwyd yn ardaloedd 'Dechrau'n Deg'. Gall nifer wedi'u capio o blant 'estyn allan' dderbyn gwasanaeth Dechrau'n Deg hefyd. Rhain yw'r plant sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd daearyddol penodol, sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yn seiliedig ar asesiad o angen.

Canlyniad y targedu hyn yw y gallai rhai o'n cleientiaid / rhieni sy'n derbyn gwasanaeth fod ag amrywiaeth o heriau yn eu bywydau; diweithdra, arwahanrwydd cymdeithasol a gallai rhai rhieni fod ag anghenion cymdeithasol ac iechyd cymhleth. Mae hyn yn golygu y gallai'r plant yr ydym yn eu targedu er mwyn manteisio o'r 'gofal plant di-dâl' fod ymysg y plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, felly mae darparwyr gofal plant Dechrau'n Deg yn adnabod anghenion amrywiol y plant o gartrefi sydd ag anghenion cymhleth, a allai fod angen ysgogiad ychwanegol er mwyn cefnogi eu dysg a'u datblygiad.

Ym mis Ionawr 2017 ar draws Wrecsam, roedd 19 lleoliad yn darparu Gofal Plant Dechrau'n Deg ar gyfer 305 o blant gyda dyraniad uwch o 436 dros 20 lleoliad yn cael eu rhagweld ar gyfer Ebrill 2017. Gan fod y rhaglen yn un a dargedir yn benodol mae'r nifer o blant sy'n cael gofal plant yn amrywio o dymor i dymor .

13. Cynaliadwyedd

Mae darparwyr gofal plant ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn mynegi pryderon am gynaliadwyedd a hyfywedd. Ymddengys fod rhai sectorau'n cael eu heffeithio'n fwy gan amrywiadau yn y farchnad nac eraill, lle mae amrywiadau bach hyd yn oed yn effeithio'n fawr ar eu cynaliadwyedd.

Mae'r mwyafrif llethol o ddarparwyr cyn ysgol (gyda neu heb AGE / DD) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael eu rhedeg gan bwyllgorau gwirfoddol. Mae nifer sylweddol o leoliadau yn cael trafferth cadw diddordeb ac ymrwymiad rhieni ac aelodau pwyllgor, felly mae lefel uchel o drosiant o ran rhieni a swyddogion pwyllgorau. Gall hyn arwain at ddilyniant gwael o un flwyddyn i'r nesaf, a diffyg trosolwg ac atebolrwydd. Yn aml bydd goruchwyliwr neu arweinydd y grŵp cyn ysgol yn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r pwyllgor ac yn aml iawn bydd hyn y tu allan i'w horiau gwaith swyddogol, neu bydd un aelod o'r pwyllgor yn gwneud mwy na'i siâr o'r cyfrifoldebau. Nid yw hyn yn fodel i'w ddyblygu gan aelodau'r pwyllgor newydd a phan fydd yr hen bwyllgor wedi bod yn bro-actif iawn ac yn ymwneud llawer â'r grŵp, gall hyn fod yn drafferthus i eraill geisio'i gyflawni.

Mae'r grwpiau mwyaf llwyddiannus ar draws darpariaeth Gymraeg a Saesneg â phwyllgorau cryf, sy'n meddwl ymlaen. Mae grwpiau sy'n cynnig gofal cofleidiol yn fwy llwyddiannus wrth ddarganfod aelodau pwyllgor gan fod ganddynt bwll mwy o gwsmeriaid i dynnu rhieni oddi wrtho. Os yw grŵp ar safle'r ysgol, gwahoddir cynrychiolwyr o'r ysgol i ymuno â'r pwyllgor er mwyn darparu dilyniant ychwanegol.

Mae lleoliadau sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgorau hefyd yn gallu cael cymorth gan Swyddog Datblygu gan unai CBSW drwy Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam neu gan Swyddog Datblygu o'r Mudiad Meithrin. Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i bwyllgorau er mwyn eu cynorthwyo, gan gynnwys mewnrwyd eang y Mudiad Meithrin (sydd ond ar gael i leoliadau sy'n aelod o'r Mudiad) a hyfforddiant drwy'r flwyddyn er mwyn i staff ac aelodau pwyllgor fel ei gilydd i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyfforddiant sgiliau pwyllgora yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â Chymdeithas Mudiad Gwirfoddol Wrecsam er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygir yn y sector. Mae Sefydliadau Gofal Plant Ymbarel eraill yn darparu cymorth drwy gymorth ar-lein ac ar y ffôn a chyfarfodydd rhwydweithio lleol lle nad yw cymorth yn y safle yn rhan o gymorth aelodaeth.

Yn gyffredinol mae'r gweithlu gofal plant yn derbyn cyflog gweddol isel, yn fenywaidd, ac yn weithlu byrhoedlog. Mae lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn cael eu cyllido yn weddol dda, fel arfer yn gallu cynnig tâl uwch i'w staff ond mae ganddynt hefyd ddisgwyliadau uwch gan gynnwys anghenion cymwysterau uwch na grwpiau nad ydynt yn grwpiau Dechrau'n Deg.

Mae cyfraddau tâl fesul awr y gweithlu gofal plant sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd yn uwch, gan fod galw yn uchel am staff cymwys sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae trosiant staff yn isel yn y Cylchoedd Meithrin ac maent yn cael eu cefnogi yn dda gan y Tîm Datblygu. Yr her fwyaf sy'n wynebu'r sector cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yw mai pwll o ychydig iawn o staff cymwys a phrofiadol sydd ar gael i dynnu oddi wrtho gyda gwybodaeth ddigonol o'r Gymraeg.

Mae angen i staff mewn lleoliadau gofal plant ddiweddaru eu hyfforddiant sylfaenol yn aml, yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn eu hymarfer o ddydd i ddydd. Er mwyn diwallu'r angen yma, mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi er mwyn cynnwys hyfforddiant sylfaenol (fel Cymorth Cyntaf i Blant, Diogelu Plant ac Oedolion ar y cyd a Hylendid Bwyd), yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleodd Datblygiad Proffesiynol Parhaus gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd a chynhwysiant. Disgwylir i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau a gomisiynwyd i ddarparu AG a DD fynychu hyfforddiant ychwanegol fel rhan o'u darpariaeth Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae lleoliadau sy'n derbyn cyllid

DD yn cael eu cefnogi'n ariannol er mwyn i'w staff fynychu'r hyfforddiant angenrheidiol. Darperir hyfforddiant hefyd gan nifer o ffynonellau gwahanol fel Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a Sefydliadau Ymbarél eraill, yn ogystal â sesiynau pwrpasol.

Nid yw mynediad at hyfforddiant yn gyfartal ar draws y sector ac mae disgwyl i lawer o staff fynychu hyfforddiant yn eu hamser eu hun ac yn ddi-dâl, hyd yn oed yn gorfod talu ffioedd cwrs eu hunain ar gyfer cyrsiau hyfforddi statudol fel Cymorth Cyntaf. Ar hyn o bryd does dim cyllid er mwyn talu staff cymorth i fynychu cyrsiau ar draws y sector gofal plant ac mae cost yr oriau ychwanegol hyn yn gallu effeithio ar allu lleoliad i fantoli'r gyllideb. Mae mwy a mwy o ddigwyddiadau yn codi lle mae anghenion y ddarpariaeth wedi ei gontractio yn groes i reolaeth holistaidd y lleoliad sy'n effeithio ar y staff, er bod hyn yn gwella.

Mae lleoliadau gofal plant yn wynebu costau cynyddol o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn rhent ar gyfer yr adeiladau maent ynddynt, yn enwedig adeiladau mae CBSW neu'r Gymuned yn berchen arnynt. Ar hyn o bryd does dim tâl rhent cyson ar draws adeiladau ysgol na'r gymuned ar gyfer darparwyr gofal plant sy'n defnyddio adeiladu neu ystafelloedd ar safleoedd ysgol. Disgwylir y bydd grwpiau sydd wedi eu lleoli ar safleoedd ysgol yn cael eu holi i dalu rhent yn y dyfodol ac mae'n bosib iawn y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd y grwpiau.

Mae costau staffio wedi cynyddu eto yn unol â'r isafswm cyflog sylfaenol neu'r cyflog byw sylfaenol, ac mae costau cynyddol yn cynnwys pensiynau ac ardrethi busnes yn bygwth hyfywedd lleoliadau ar draws y sector. Bydd yn rhaid codi prisiau defnyddiau traul fel byrbrydau, diodydd ac adnoddau a dydy lleoliadau ddim am basio'r gost uwch ymlaen at rieni, sy'n dweud wrthym fod talu am ofal plant eisoes yn her. Pan fydd grwpiau yn ystyried cynyddu ffioedd, yn aml rhaid iddynt ystyried y risg o golli busnes. Mae darparwyr Meithrinfeydd Dydd wedi disgrifio'r effaith a deimlir o gostau cynyddol darparu, yn arbennig o safbwynt cynnydd mewn ardrethi busnes a chostau staffio.

Yn gyffredinol mae darparwyr cyn ysgol wedi bod yn araf iawn yn symud gyda phatrymau'r farchnad a datblygu model darpariaeth gofal plant holistaidd, gan agor yn gynnar a chau fin nos er mwyn cwrdd anghenion rhieni. Camodd y sector breifat i mewn a manteisio ar ddiffyg rheolaeth broffesiynol o fewn y rhan fwyaf o leoliadau cyn ysgol ac mae hyn yn tanseilio'r angen i feddwl yn radical am gefnogi lleoliadau i gynyddu safon a datblygu model busnes mwy priodol. Ar hyn o bryd rydym yn parhau i gynnal rhwydwaith anymarferol o ddarparwyr, tra dylem fod yn gweithio'n galed i'w cefnogi i wella'u darpariaeth a chynllunio ar gyfer anghenion newidiol y farchnad. Bydd lleoliadau sydd yn daer i gadw i fynd yn aml yn recriwtio gwirfoddolwyr i'r pwyllgor sydd heb syniad da iawn o beth mae'n ei olygu, ac nad oes o bosib â'r sgiliau na'r ddealltwriaeth i redeg 'ochr fusnes' darpariaeth gofal plant. Y grwpiau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n gweld yr angen i drin y grŵp fel busnes ac sy'n gweithio i gynhyrchu 'elw' neu arian dros ben er mwyn adeiladu cronfeydd wrth gefn ar gyfer yr amseroedd caled.

Mae rhieni sydd eisoes yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd yn credu fod gofal plant yn 'rhy ddrud'. Mae lleoliadau yn gorfod pwyso a mesur yr angen i gynyddu eu ffioedd oherwydd costau gweithredu uwch yn erbyn y risg o golli rhieni i grŵp arall neu drefniadau gofal plant anffurfiol. Mae gofal plant Wrecsam yn parhau i fod ymysg y rhataf yng Nghymru, fodd bynnag mae rhieni yn Wrecsam yn parhau i ddweud wrthym fod gofal plant yn rhy ddrud. Mae'r sector gofal plant yn gyffredinol yn cael ei effeithio gan gynnydd mewn costau darparu ac yn parhau i adrodd eu bod yn ei chael hi'n anodd cydbwyso

fforddiadwyedd a chynaliadwyedd. Mae llawer o ddarparwyr yn parhau i fod mewn sefyllfaoedd lle mae ei hunig opsiwn yw ceisio am gyllid gan yr Awdurdod Lleol er mwyn goroesi.

Mae grwpiau'n bodoli drwy wneud ceisiadau am grant i barhau a thrwy ddigwyddiadau codi arian cymunedol, fodd bynnag mae'r nifer o ffrydiau grant yn lleihau ac mae gormod o bobl yn ceisio amdanynt sy'n golygu bod llawer o gystadleuaeth. Mae ychydig o ffynonellau o gyllid grant y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwariant refeniw gyda'r rhan fwyaf ar gael i gynorthwyo prosiectau sy'n cychwyn o'r newydd. Gall pwysau ar gyllidebau cymunedol arwain yn ei dro at godi rhenti anghynaladwy ar grwpiau, neu hyd yn oed gau adeiladau sy'n gartrefi i wasanaethau gofal plant ar y funud. Ystyriaeth ychwanegol yw lle mae lleoliadau gwan yn dibynnu ar gyllid grant, neu lle mae disgwyl i staff gymryd llawer o lwyth gwaith pwyllgor didaro ymlaen, mae'r cyfrifoldeb am gynhyrchu ceisiadau grant yn cwympo ar y staff neu nid yw'n cael ei flaenoriaethu fel maes gwaith gan y pwyllgor.

Mae patrymau gweithio rhieni wedi newid dros y 5 mlynedd diwethaf ac o ganlyniad mae cynnydd yn y nifer o rieni sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol neu'n cymryd llai o sesiynau o ofal plant cofrestredig a defnyddio cymysgedd o ddarparwyr. Mae teuluoedd wedi dod i arfer gyda'r patrwm hwn o fywyd teuluol a bydd y farchnad gofal plant yn cymryd mwy o amser i adfer i lefelau'r flwyddyn flaenorol o gofrestriadau gofal plant. Mae'r sector breifat hefyd wedi gweld y cyfle ac wedi newid sut mae'n darparu gwasanaeth er mwyn bodloni anghenion newidiol rhieni. Tra bo'r lefel hwn o wasanaeth yn amrywiol o ardal i ardal, mae tystiolaeth yn awgrymu fod y model gofal plant 'sesiynol' bellach wedi dyddio a bod angen ac eisiau model o ofal dydd hyblyg ar rieni bellach. Mae cyllid a chymorth busnes yn parhau i fod ar gael gan Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam a phartneriaid er mwyn datblygu model busnes darparwyr gofal plant, gan gynnwys y rheiny sy'n edrych i ail fodelu neu ymestyn eu darpariaeth. Mae cymorth parhaol gan grwpiau aelodaeth fel ein sefydliadau partner ymbarél a chymorth arbenigol gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn parhau i fod ar gael i'r lleoliadau hynny a hoffai ei ddefnyddio.

14. Traws Ffiniol

Mae Wrecsam yn ffinio gyda siroedd Powys, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Swydd Amwythig, Gorllewin Swydd Gaer, Caer, a Dwyrain Swydd Gaer. Mae partneriaeth gref rhwng CBSW ac Awdurdodau eraill Gogledd Cymru sy'n golygu bod materion traws ffiniol yn cael eu trin yn fuan. Mae cydweithio er mwyn darparu hyfforddiant (fel rhaglen hyfforddiant CYPOP 5 ar gyfer gwarchodwyr plant), prosiectau penodol (mae Broceriaeth Gofal Plant yn brosiect ar y cyd a ddarperir gan CBSW gan weithio gyda Sir y Fflint) a chymorth i rieni gael mynediad at ofal plant wedi eu hwyluso drwy'r partneriaethau lleol datblygedig hyn. Mae cysylltiadau wedi eu datblygu gyda chydweithwyr yn Swydd Amwythig, Gorllewin Swydd Gaer a Dwyrain Swydd Gaer.

Gyda'r Cynnig Gofal Plant i Gymru sydd ar ddod bydd angen gweithio mewn partneriaeth agos gyda'n Awdurdodau Lleol cyfagos er mwyn darparu'r cynnig i deuluoedd cymwys. Mae rhai lleoliadau gofal plant sy'n ffinio â Swydd Amwythig eisoes yn darparu Addysg Gynnar wedi'i Hariannu i blant sy'n byw yn Swydd Amwythig, sy'n galluogi rhieni a phlant i fanteisio ar eu hawliau mewn lleoliad o'u dewis nhw. Mae parhau i ddatblygu'r cysylltiadau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd yn colli allan.

15. Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu

15.1 Trosolwg Datblygu'r Gweithlu

Cynigir mynediad am ddim at gyfleoedd hyfforddi priodol a chymorth i ymarferwyr gyflawni cymwysterau Lefel 2, 3 a rhai cymwysterau Lefel 5 drwy gyllid Cyllid ar gyfer Llwyddiant gan Lywodraeth Cymru, ac mae cyllid ychwanegol a glustnodwyd yn lleol hefyd ar gael.
Darperir hyfforddiant arbenigol parhaus am ddim ar gyfer ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar wedi'i Hariannu gan y tîm Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar wedi'i Hariannu.

Mae rhaglen hyfforddiant a datblygu ddwys ar gael i'r holl ymarferwyr drwy Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam er mwyn cefnogi eu hanghenion hyfforddi statudol parhaus yn ogystal ag amrywiaeth eang o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar ffurf cyrsiau byr ar draws pob maes o fewn gweithio gyda phlant. Mae'r rhaglen hyfforddi hon yn derbyn cymhorthdal sylweddol gan Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam er mwyn cyfyngu'r effaith ar y lleoliad.

Mae sefydliadau unigol yn parhau i redeg sesiynau hyfforddi ar gyfer eu haelodaeth yn ogystal i'r hyn a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol neu gymhwyster proffesiynol a ariennir.

Mae partneriaeth barhaol gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn sicrhau mynediad at addysg bellach i ymarferwyr sydd am geisio llwybr academaidd neu gael mynediad at un o'r llwybrau Graddau Sylfaen gydag Ymarfer sydd newydd eu cymhwyso.

15.2. Cymwysterau'r gweithlu presennol
Mae gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam wybodaeth electronig am gymwysterau staff yng ngweithlu gofal plant Wrecsam, ond yn cydnabod nad yw'r darlun hwn yn gyflawn. Ar hyn o bryd mae data ar gael ar gyfer 173 lleoliad yn Wrecsam (51.5%), eto mae'n bwysig nodi fod rhai staff yn gweithio i fwy nac un sefydliad ac felly mae'n bosib fod peth cyfrif dwbl.

Mae data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth yn darparu darlun mwy cyflawn o lefelau cymwysterau'r gweithlu. Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a lenwodd yr adran Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar y gweithlu yn gallu dweud os oedd eu lefel o gymhwyster yn unol â Rhestr Cymwysterau Derbyniol Cyngor Gofal Cymru ac roedd ganddynt lefelau uchel neu ganolig o hyder. Darperir manylion llawn y data yma:

15.3 Hyfforddiant
Darperir hyfforddiant i gwrdd gofynion statudol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol drwy Gyfeiriadur Hyfforddiant y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sy'n cael ei gynllunio dros flwyddyn. Cyhoeddir rhaglen o gyrsiau math Datblygiad Proffesiynol Parhau yn y cyfeiriadur ac mae gweithdai neu gyrsiau ychwanegol yn cael eu datblygu drwy'r flwyddyn a'u hysbysebu drwy'r cyfeiriadur Hyfforddiant.

Cyrsiau Blynyddol a Gynllunnir i gwrdd gofynion statudol:

Teitl y Cwrs	Nifer y cyrsiau

Cymorth Cyntaf Pediatrig Sylfaenol	12
Diogelu Plant ac Oedolion ar y cyd	10
Cwrs Atgoffa Diogelu	6
Hylendid Bwyd Lefel 2	6
Codi a Chario Plant	2

Bydd dadansoddiad o ddyddiadau hyfforddi Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd ac Amddiffyn Plant yn hysbysu'r broses o gynllunio cyrsiau ychwanego i fodloni anghenion a nodir drwy gydol y rhaglen. O'r dadansoddiad cyntaf mae'n glir fod gan y rhan fwyaf o ymarferwyr hyfforddiant cyfredol yn y meysydd hyn. Y maes gyda'r hyfforddiant 'lleiaf cyfredol' yw ymwybyddiaeth sylfaenol o amddiffyn plant a fydd yn cael ei flaenoriaethu i'w symud ymlaen yn y Cynllun Gweithredu.

Mae sicrhau mynediad at gymhwyster Gwaith Chwarae priodol ar gyfer y gweithlu gofal y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau yn ddarn o waith a fydd yn cael ei flaenoriaethu yn y Cynllun Gweithredu.

16. Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc

Mewn cydnabyddiaeth o'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud gyda phlant fel rhan o'r broses ADdGP a safon y canfyddiadau, cytunodd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam y dylai'r gwaith hwn gael ei ddefnyddio fel sail i ymgynghori â phlant ar gyfer yr ADdGP hwn. Defnyddiodd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Wrecsam Fodlonrwydd Plant fel mesur o ddigonolrwydd, gyda methodoleg drwyadl ar gyfer yr ymchwil. O'r herwydd mae'r deunydd yn cael ei gynrychioli yma yn cydnabod fod llawer o'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn treulio amser mewn lleoliad gofal plant a darpariaeth arall wedi ei staffio, ac mai eu lleisiau nhw o safbwynt bodlonrwydd cyfleoedd chwarae yw'r ffactor allweddol y dylid ei hystyried ar gyfer dadansoddiad yr adran hon.

Dangosodd Asesiad O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae cyntaf Wrecsam fod gan blant ryw lefel o ymwybyddiaeth reddfol o beth sy'n ddigon o safbwynt nifer ac ansawdd eu cyfleoedd i chwarae, er enghraifft, lle nododd plant anfodlonrwydd roedd y nodweddion y bu iddynt nodi fel bod yn angenrheidiol i sicrhau digonolrwydd yn cael eu dilysu gan bresenoldeb yn y cymunedau lle mynegodd plant fodlonrwydd. Ymhellach at hynny, roedd lefel y plant yn nodi bodlonrwydd yn gyson, pe treuliwyd chwe wythnos yn siarad â nhw am eu cyfleoedd chwarae, neu os gwnaethant lenwi holiadur ar-lein (er yn amlwg doedd dim cymaint o ddyfnder data i'w gael o'r olaf).

Canlyniadau Arolwg Bodlonrwydd

Yn arolwg 2015 nododd 73% o blant fod eu bodlonrwydd â'u cyfleoedd chwarae yn 'dda' neu'n 'wych', nododd 19% eu bod 'yn iawn ond angen gwella' a nododd 8% fod y cyfleodd 'ddim yn dda neu gwael iawn'. Mae hyn o'i gymharu â 70%, 20% a 10% yn 2012, sy'n awgrymu gwelliant o 3% mewn lefelau bodlonrwydd cyffredinol. Fodd bynnag tra roedd arolwg 2012 yn cynnwys plant o bob oed, dim ond plant ym mlwyddyn pump (9 a 10 oed) fu'n rhan o arolwg 2015 er mwyn gallu gwneud cymariaethau mwy teg rhwng gwahanol gymunedau. Os taw dim ond y canlyniadau gan blant 9 a 10 oed o 2012 a ystyriwyd yna byddai'r lefelau boddhad cyffredinol wedi cynyddu o tua 5%. Fodd bynnag cynhaliwyd arolygon 2012 a 2015 ar adegau gwahanol o'r flwyddyn (Tachwedd/Rhagfyr 2012 a Mawrth/Ebrill 2015) a gallai hyn hefyd ddylanwadau ar y canlyniadau.

O'i gymharu â phlant, nododd 36% o rieni fod lefel eu boddhad â chyfleoedd y plant i chwarae yn 'dda' neu 'gwych', nododd 34% eu bod yn 'iawn ond angen gwella' a nododd 30% nhw fel bod 'ddim yn dda neu gwael iawn'. Mae hyn o'i gymharu â 26%, 34% a 40% yn 2012, sy'n awgrymu gwelliant o 10% mewn lefelau bodlonrwydd. Cynhaliwyd y ddau arolwg i rieni ar yr un adeg o'r flwyddyn (yn ystod Tachwedd a Rhagfyr).

Fel asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae gwreiddiol Wrecsam, gallai'r gwahaniaeth mewn lefelau bodlonrwydd rhwng plant a rhieni fod am nifer o resymau gan gynnwys: rhieni yn fwy pryderus am ddiogelwch eu plant, rhieni yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth chwarae ond plant yn dod o hyd i amser a gofod i chwarae mewn sawl cyd-destun arall hefyd, a rhieni yn cymharu eu profiadau eu hunain o chwarae â chyfleoedd y plant rŵan.

Beth mae canlyniadau'r holiadur yn ei ddarlunio yw fod nifer o'r ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn profi diffyg digon o gyfleoedd i chwarae yn cwympo y tu allan i'r ardaloedd hynny a fyddai'n cael eu diffinio fel arfer fel rhai 'difreintiedig' (yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Llywodraeth Cymru) ac ni fyddai ganddynt felly fynediad at gymorth gan wasanaethau a gyllidir gan raglenni gwrth dlodi Teuluoedd Yn Gyntaf neu Gymunedau yn Gyntaf, mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gwaith chwarae yn Wrecsam. Efallai nad yw'n syndod fod cwestiynau wedi eu codi drwy'r broses asesu am ddull gweithredu cyfredol Wrecsam o gynnal hawl gyffredinol plant i chwarae ar draws y bwrdeistref sirol.

Mae blaenoriaethau'r Asesiad o Ddigonolrwydd o Gyfleoedd Chwarae isod wedi nodi pwysigrwydd yr ADdGP

Blaenoriaeth 1: Cynyddu cyfnod chwarae gwrthrychol yn ystod y tymor - Nodwyd fod hyd amser chwarae mewn ysgolion yn broblem, yn enwedig pan oedd disgwyl i blant gyflawni dyletswyddau eraill yn ystod y cyfnodau hyn. Fe nododd plant hefyd yr amser yn union cyn ac ar ôl ysgol fel 'amseroedd chwarae' ychwanegol gan awgrymu y gallai'r rhieni helpu iddynt gael mwy o amser i chwarae drwy gyrraedd ychydig yn gynt neu adael ychydig yn hwyrach. Er bod plant blwyddyn 6 wedi sôn am waith cartref a gwaith tŷ nid oedd rhain i'w gweld yn cael effaith niweidiol ar eu lefelau boddhad, fodd bynnag dywedodd plant mewn ysgolion uwchradd y gallai gwaith cartref a chael eu cadw i mewn yn ystod amseroedd chwarae gael effaith ar eu hamser i chwarae. Nododd plant eu bod yn mwynhau gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan oedolion, ond dywedodd rhai bod gorfod gwneud ymrwymiad hir dymor i'r rhain yn golygu fod amseroedd lle roeddent am fynd i chwarae gyda'u ffrindiau ar ôl ysgol ond nad oeddynt yn gallu gwneud hynny. Y neges amlwg yma yw un o gydbwysedd rhwng rhwymedigaethau eraill ar amser plant â'u hawl i gael amser rhydd a gofod i chwarae ac mae'r cyfrifoldeb hwn nyn cwympo ar rieni ac ysgolion gan fwyaf. Fodd bynnag, tra roedd rhai rhieni yn pryderu am faint o amser y plant oedd yn cael ei dreulio ar waith ysgol a

gweithgareddau eraill ar ôl ysgol, awgrymodd llawer eu bod yn cael trafferth blaenoriaethu amser i gefnogi eu plant i chwarae oherwydd eu rhwymedigaethau gwaith.

Blaenoriaeth 2: Gwneud mwy o gyfleoedd i chwarae yn y Gaeaf - Mae tywydd gwael a nosweithiau tywyll yn rhwystr sylweddol i blant rhag chwarae y tu allan gyda phlant a rhieni yn nodi'r angen am olau stryd gwell, yn enwedig o amgylch darpariaeth i blant yn eu harddegau. Gofynnodd rhieni hefyd am fwy o ddarpariaeth o dan do gyda rhai'n awgrymu fod gofodau awyr agored mwy 'naturiol' yn llai ymarferol mewn tywydd gwlyb. Nododd plant hefyd y tywydd fel ffactor oedd yn cyfyngu arnynt yn yr ysgol oherwydd roeddynt yn methu defnyddio'r cae pan oedd yn wlyb (er i rai awgrymu y gallai gwisgo welingtyns ddatrys y broblem hon).

Blaenoriaeth 6: Sicrhau a chynnal darpariaeth chwarae o safon – Soniodd plant mewn cymunedau oedd yn sgorio'n uchel am fod a mynediad at "ddigonedd o barciau" yn ogystal â mathau eraill o ofodau, *a* mynediad at ddarpariaeth sy'n cael ei redeg gan oedolion oedd yn eu cefnogi i chwarae. Mae esiamplau yn Wrecsam o gymunedau lle mae plant sy'n byw o dan amodau economaidd gwaeth yn adrodd am lefelau cryn dipyn yn uwch o fodlonrwydd, gyda'u cyfleoedd i chwarae, o'i gymharu â phlant mewn ardaloedd sy'n ymddangos yn fwy cefnog, ac mae hyn i raddau o leiaf oherwydd lefel y ddarpariaeth chwarae, a phresenoldeb ac arfer gweithwyr chwarae yn benodol.

Pan ofynnwyd beth fyddai'n helpu i wella cyfleoedd eu plant i chwarae, barn y mwyafrif o rieni oedd cynyddu a gwella darpariaeth chwarae, ac roedd yn glir fod diffyg neu golli darpariaeth chwarae mewn rhai achosion yn gwneud i rieni deimlo'n flin. Fodd bynnag o'i gymharu â Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gwreiddiol Wrecsam, y tro hwn rhoddodd rhieni fwy o bwyslais ar argaeledd darpariaeth wedi'i staffio, yn arbennig gwaith chwarae a gwasanaeth gwaith ieuenctid, yn ogystal â gofodau penodedig i chwarae heb oruchwyliaeth. Dywedodd rhai rhieni fod darpariaeth gwaith chwarae yn helpu drwy roi "tawelwch meddwl" iddynt a dywedodd eraill fod colli'r ddarpariaeth gwaith chwarae wedi cyfyngu ar eu gallu i adael eu plant allan i chwarae. Awgrymodd eraill eu bod am gael mynediad at wasanaethau gwaith chwarae drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond yn ystod gwyliau ysgol yn unig.
Mae'n glir fod darpariaeth chwarae (h.y. darpariaeth lle mai'r prif bwrpas yw cefnogi chwarae) yn gwneud cyfraniad sylweddol i gynyddu lefelau bodlonrwydd pobl gyda'u cyfleoedd i chwarae. Yn gyffredinol roedd plant yn poeni mwy am fynediad at ofodau gwahanol a gyda phwy yr oeddynt i'w rhannu, yn hytrach na'u cynllun. I rieni roedd hyn yn benodol am safon y ddarpariaeth yn ogystal â'i argaeledd, y gost (iddyn nhw) a sicrwydd at y dyfodol.

Blaenoriaeth 8: Gwella profiad goddrychol plant o amser a gofod mewn darpariaeth a oruchwylir gan oedolion – Rhoddodd plant a ddangosodd fodlonrwydd uchel sawl esiampl o greu eu darpariaeth eu hunain yn yr ysgol drwy chwarae gemau iard chwarae 'traddodiadol' gydag ond ychydig o angen am adnoddau ychwanegol neu ymyrraeth gan oedolion. O'i gymharu, rhoddodd plant a nododd lefelau isel o fodlonrwydd esiamplau o gemau tebyg yn cael eu gwahardd a rhannwyd straeon o agweddau cyfyng iawn mewn ysgol (mewn un achos roedd cyswllt corfforol wedi ei wahardd felly roedd yn rhaid i'r bechgyn chwarae "tag cysgod"). Roedd plant yn gweld yn iawn fod y cyfyngiadau hyn yn afresymol ac o ganlyniad roeddynt yn arddangos synnwyr gwirioneddol o anghyfiawnder. Mae cyfyngiadau ar y defnydd o ofod mewn rhai ysgolion hefyd yn gostwng faint o le sydd ar gael i chwarae, ac felly yn cynyddu faint o gystadlu sydd am weddill y gofod sy'n arwain at fwy o broblemau, a mwy o ymyrraeth gan oedolion. Roedd canfyddiadau gwahanol iawn

hefyd ynglŷn â sut mae clybiau ar ôl ysgol yn cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae plant, gyda rhai plant yn dweud bod eu clwb yn 'ddiflas' gan nad oeddynt yn cael mynd allan a rhai eraill yn dweud bod eu clwb nhw'n wych gan ei fod yn canolbwyntio ar blant yn chwarae.

17 Dadansoddiad - Dadansoddiad O'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwella

17.1 Dadansoddiad Darpariaeth a Galw

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa darpariaeth a galw gofal plant lleol ym mhob ward yn Wrecsam. Fodd bynnag, rhaid defnyddio'r data hwn ochr yn ochr â data cyd-destunol arall wrth ddatblygu darpariaeth a lleoedd gofal plant newydd, er mwyn sicrhau fod materion cynaliadwyedd yn cael eu hystyried o'r dechrau.

Ward	Lefel y Galw	Lefel Darpariaeth Gofal Blynyddoedd Cynnar	Lefel Darpariaeth Gofal Y Tu allan i Oriau Ysgol (Cyn ac ar ôl Ysgol a Gwyliau)
Acton	**Isel**	**Uchel**	**Uchel**
Parc Borras	**Isel**	**Uchel**	**Isel**
Bronington	**Canolig**	**Uchel**	**Uchel**
Brymbo	**Canolig**	**Uchel**	**Isel**
Brynyffynnon	**Uchel**	**Isel**	**Isel**
Bryn Cefn	**Isel**	**Uchel**	**Uchel**
Cartrefle	**Uchel**	**Uchel**	**Isel**
Cefn	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Dyffryn Ceiriog	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Gogledd y Waun	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
De'r Waun	**Canolig**	**Uchel**	**Isel**
Coedpoeth	**Uchel**	**Isel**	**Uchel**
Erddig	**Uchel**	**Isel**	**Uchel**
Esclus	**Canolig**	**Isel**	**Isel**
Garden Village	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
Dwyrain a Gorllewin	**Canolig**	**Uchel**	**Uchel**

Gresffordd			
Grosvenor	**Isel**	**Uchel**	**Uchel**
Gwenfro	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Dwyrain a De Gwersyllt	**Uchel**	**Isel**	**Isel**
Gogledd Gwersyllt	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**
Gorllewin Gwersyllt	**Isel**	**Uchel**	**Isel**
Hermitage	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
Holt	**Uchel**	**Uchel**	**Isel**
Johnstown	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
Little Acton	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Llangollen Wledig	**Uchel**	**Uchel**	**Uchel**
Llai	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Maesydre	**Uchel**	**Isel**	**Isel**
Marchwiail	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
Merffordd a Hoseley	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
Y Mwynglawdd	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**
Brychdyn Newydd	**Isel**	**Uchel**	**Isel**
Offa	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**
Owrtyn	**Isel**	**Uchel**	**Uchel**
Pant	**Uchel**	**Isel**	**Isel**
Penycae	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Penycae a De Rhiwabon	**Canolig**	**Isel**	**Isel**
Plas Madoc	**Uchel**	**Isel**	**Uchel**
Ponciau	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**
Queensway	**Isel**	**Isel**	**Isel**
Rhosnesni	**Isel**	**Isel**	**Uchel**
Yr Orsedd	**Isel**	**Uchel**	**Uchel**
Rhiwabon	**Uchel**	**Isel**	**Uchel**
Smithfield	**Canolig**	**Isel**	**Isel**
Stansty	**Uchel**	**Isel**	**Uchel**
Whitegate	**Uchel**	**Isel**	**Isel**

Wynnstay	**Isel**	**Isel**	**Isel**

- Yr ardaloedd gyda darpariaeth **isel** a galw **uchel** yw'r ardaloedd lle mae angen datblygu mwy o ofal plant a dylai fod yn gynaliadwy (Brynyffynnon, Coedpoeth, Dwyrain a De Gwersyllt, Maesydre, Pant, a Whitegate)
- Yr ardaloedd gyda darpariaeth **isel** a galw **isel** yw'r rheiny lle mae'n annhebygol y bydd y farchnad yn datblygu lleoedd gofal plant. Er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gofal, mae'n debyg y bydd angen ymyrraeth yn y farchnad er mwyn ysgogi galw (Cefn, Dyffryn Ceiriog, Gwenfro, Little Acton, Llai, Penycae, Queensway, ac Wynnstay)
- Yr ardaloedd gyda darpariaeth **uchel** a galw **canolig** neu **uchel** yw'r rheiny lle mae'r farchnad yn fwyaf tebygol o fod yn weithredol a bydd grymoedd y farchnad yn cwrdd darpariaeth gydag ychydig o ymyrraeth bellach (Bronington, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, a Llangollen Wledig)
- Mae ardaloedd gyda darpariaeth **uchel** a galw **isel** yn debygol o gael digon o ofal plant. Mae'n bosib fod gormod o ddarpariaeth yn yr ardaloedd hynny (Acton, Bryn Cefn, Grosvenor, Owrtyn a'r Orsedd)

Tra bo'r wybodaeth yma yn ddefnyddiol i nodi wardiau lle dylai bylchau mewn darpariaeth fodoli mewn theori, fel y dadansoddiad ehangach o fylchau gofal plant, mae'n bosib nad yw'r galw ar gyfer y ddarpariaeth yma ym mhob ward. Gallai dadansoddiad lleol nodi fod gofynion yn cael eu cwrdd mewn wardiau cyfagos, a fyddai'n golygu nad oes angen darpariaeth ychwanegol yn y ward honno eto ac na fyddai o bosib yn gynaliadwy.

Byddai angen datblygiad sylweddol er mwyn gwella lefelau gofal plant yn wardiau Cartrefle, Queensway, Smithfield, Whitegate ac Wynnstay ac i ddod â'r lefelau i fyny at lefelau cyfartalog Wrecsam. Fodd bynnag, mae lefelau diweithdra yn y wardiau hyn yn uchel, a fyddai'n golygu y byddai datblygiadau gofal plant pellach yn yr ardaloedd hyn yn anghynaladwy ar hyn o bryd.

Mewn ardaloedd fel Grosvenor, Owrtyn a'r Orsedd, lle mae darpariaeth uchel o ofal plant ond lefel isel o alw, mae'n bosib fod potensial am ddatblygiad pellach gan y gallai olygu fod rhieni o'r tu allan i'r ardaloedd hyn yn defnyddio gofal plant yn y wardiau hyn.

Gallai bylchau yn y math o ofal plant effeithio ar lai o deuluoedd na bylchau o ran fforddiadwyedd ac amser, a'r dewis o ofal plant yw'r broblem fwyaf yn hytrach na'r angen am fwy o leoedd. Nid yw safon y ddarpariaeth yn fwlch mawr i Wrecsam, gyda nifer sylweddol o rieni yn gyffredinol hapus gyda safon y ddarpariaeth.

18. Cynllun Gweithredu

CYNNYDD CYNLLUN GWEITHREDU 2014 – 2017

Caiff cynllun gweithredu manwl 2014 – 2017 ei ddiweddaru bob 6 mis gyda chynnydd yn erbyn meysydd gwaith. Mae cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn 2014 yn cael eu cyflwyno isod ac atodir y cynllun gweithredu cyfan ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi amcanion bras ar gyfer y tair blynedd a chamau gweithredu cychwynnol ar gyfer Blwyddyn 1 (2014 – 2015). Caiff y Cynllun Gweithredu ei fonitro bob chwarter gan y Cydlynydd Gofal Plant, ei ddiweddaru bob 6 mis a'i adolygu'n flynyddol gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae'n cael ei oruchwylio gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac mae'n bwydo i Gynllun Sengl BGLl Wrecsam.

Argymhellion – Gofal Plant Cynhwysol

Beth wnaethom ni ei ddweud - Mae rhieni yn dweud wrthym fod diffyg gofal plant sy'n bodloni anghenion plant anabl ar draws y Fwrdeistref Sirol. Byddwn yn blaenoriaethu'r datblygiad o gefnogi pob darparwr gofal plant i gynnig gwasanaeth cynhwysol i rieni a phlant, fel bod mwy o ddewis i'r rhieni yn eu hardal leol, neu'n agos at ysgol eu plentyn. Bydd angen yn parhau am nifer o leoliadau arbenigol lle mai dyma yw'r math mwyaf priodol o ofal plant ar gyfer eu plentyn. Os byddwn yn llwyddiannus bydd rhieni plant anabl yn cael mynediad at fwy o'r mathau o ddarpariaeth y maent eisiau, yn y llefydd ac ar yr adegau y byddant ei eisiau. Bydd rhieni yn fwy bodlon a bydd plant yn mwynhau eu hunain ac yn ffynnu tra bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Beth rydym ni wedi ei wneud– Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer cefnogi lleoliadau gofal plant i gwrdd anghenion plant anabl neu blant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Rydym wedi ehangu'r mynediad at y ffrwd Grant 'Dwylo Ychwanegol' er mwyn sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rheiny sydd yn gweithio neu'n hyfforddi ac wedi ymestyn y cynnig hwn i sicrhau y gall teuluoedd ddewis y math o ofal plant sy'n fwyaf addas ar eu cyfer nhw. Rydym wedi cryfhau rôl Gwasanaeth Broceriaeth Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam er mwyn sicrhau fod y lleoliadau gofal plant sy'n cefnogi plant anabl yn derbyn cymorth uniongyrchol i adeiladu eu hymarfer cynhwysol. Rydym wedi ychwanegu at y rhaglen hyfforddiant arbenigol gyda chyrsiau hyfforddi pwrpasol wedi eu hadeiladu ar angen a glustnodwyd, er mwyn darparu cymorth i'r lleoliadau hynny sy'n cefnogi plant anabl. Rydym yn parhau i sicrhau fod y rhain yn hygyrch i bob ymarferwr er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddarparu gwasanaeth gofal plant cynhwysol. Mynychodd 153 o ymarferwyr gofal plant 15 cwrs hyfforddiant cynhwysiant gyda 100% yn dweud eu bod wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth a 75% yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddiwallu anghenion plant anabl.

Cefnogwyd 48 o blant anabl yn Wrecsam drwy'r Gwasanaeth Broceriaeth Gofal Plant er mwyn cael mynediad at neu gadw lle gofal plant rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, gyda 32 lleoliad yn derbyn cymorth cynhwysiant arbenigol gan y Swyddog Broceriaeth Gofal Plant. Cafodd 24 lleoliad eu cyfeirio at yr hyfforddiant arbenigol er mwyn sicrhau fod cymorth cydgysylltiol ar draws y ffrwd waith.

Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr gofal plant lleol er mwyn nodi cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau arbenigol mewn ymateb i alw. Mae'r Cynghorydd Rhieni Arbenigol a Broceriaeth Gofal Plant yn parhau i ddatblygu swyddogaeth Estyn Allan arbenigol er mwyn sicrhau ein bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda rhieni plant anabl er mwyn monitro patrymau mewn galw a rhwystrau mynediad.

Argymhelliad – Gofal Plant Cynaliadwy

Beth wnaethom ni ei ddweud - Mae lleoliadau yn dweud wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd aros yn gynaliadwy yn ariannol. Byddwn yn blaenoriaethu cefnogi'r holl leoliadau i ganolbwyntio mwy ar fusnes ac i wella eu cynaliadwyedd ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn drwy wasanaethau cynnal penodol a drwy wella hyfforddiant a sicrhau fod dulliau gweithredu ar gael er mwyn i leoliadau eu defnyddio. Byddwn yn treialu ffyrdd newydd ac arloesol o wneud pethau lle bo'n addas. Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus pan fydd llai o leoliadau'n dweud wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd ac mewn peryg o orfod cau. Bydd lleoliadau mewn sefyllfa well i wynebu heriau economaidd a ffynnu fel busnesau gyda llai o gymorth.

Beth rydym wedi ei wneud - Er mwyn ail-siapio'r cymorth sydd ar gael i'r Sector Gofal Plant gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac er mwyn lleihau dyblygu, a gwella effeithlonrwydd**,** rydym wedi ail-siapio'r gwasanaeth cymorth sydd ar gael i'r farchnad Gofal Plant. Mae gan bob lleoliad ar draws y fwrdeistref fynediad at Swyddog Gofal Plant penodedig sy'n darparu cymorth ymarferol a chymorth busnes holistaidd. Bydd pob lleoliad yn cael cynnig 'Rhestr Gyfeirio Gwaelodlin' er mwyn nodi'r lefel o gymorth y maent ei angen yn erbyn Fframwaith Cymorth a Dargedwyd. Bydd y gwaelodlin yn sicrhau fod y sector yn gwybod ac yn deall pa gymorth y gall ei ddisgwyl ac y gall y gwasanaeth ganolbwyntio eu hymdrechion ar y lleoliadau sydd fwyaf o'i angen. Mae'r ffocws ar wella arferion busnes y lleoliad er mwyn cefnogi'r rheiny sydd yn fwyaf agored i niwed, yn enwedig yn ariannol.

Rydym yn parhau i warchod a blaenoriaethu cyllid cynaliadwyedd ar gyfer y lleoliadau hynny sydd angen datrys problem cynaliadwyedd byr dymor. Rydym yn gallu gweithio'n agos gyda lleoliadau gofal plant er mwyn nodi gweledigaeth gynaliadwy ar gyfer y dyfodol mewn manylder, a datblygu cynllun ar gyfer eu gweithredu er mwyn cyflawni hyn gyda chymorth gan Swyddogion Gofal Plant a phartneriaid lleol fel Mudiad Meithrin.

Rydym wedi cryfhau rôl Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant er mwyn galluogi'r grŵp i fod â throsolwg dros ddatblygiadau yn y sector ac i sicrhau cydweithio er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant a gwarchod buddiannau'r sector gofal plant mewn partneriaeth. Y nod yw sicrhau ein bod yn gwarchod buddiannau lleoliadau sy'n agored i niwed wrth ystyried datblygiadau newydd a chydweithio i ddatblygu'r dulliau gweithredu i gefnogi'r farchnad. Mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn darparu cynllun gwaith i'r dyfodol, gan adeiladu ar Gynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a fydd yn bwydo i Fyrddau Darparu Partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol er mwyn hysbysu 'Ein Cynllun Ar Gyfer Wrecsam'.

Rydym wedi comisiynu pecyn TG cymorth busnes newydd ar gyfer lleoliadau gofal plant sy'n gwneud pethau'n haws i'r lleoliadau hynny sydd â systemau gweinyddol a phrosesau monitro ariannol gwael, er mwyn iddynt gadw golwg ar eu harchebion, eu hincwm a'u gwariant. Bydd y pecyn hwn yn cael ei gyflwyno i bob lleoliad drwy sesiwn hyfforddi cychwynnol a strwythur cefnogaeth cymheiriaid, lle bydd ymarferwyr hyderus yn gweithio mewn system gyfeillio er mwyn cefnogi lleoliad arall llai hyderus i ddefnyddio'r pecyn yn llawn.

Argymhelliad – Gofal Plant o Safon

Beth wnaethom ni ei ddweud – Mae'r mwyafrif helaeth o rieni yn dweud wrthym eu bod yn fodlon gyda'u gofal plant ac mae lefelau boddhad yn cynyddu. Fodd bynnag mae rhai rhieni yn dal i ddweud wrthym nad ydynt yn fodlon a'u bod am weld gwelliannau yn safon y ddarpariaeth gofal plant ar draws y Fwrdeistref Sirol. Byddwn yn blaenoriaethu cefnogi lleoliadau gofal plant i gyflawni lefel uchel o safon bob dydd. Byddwn yn eu cefnogi i gyflawni

Gwobrwyon Safon lle bo'n briodol ond yn bwysicach byddwn yn eu cynorthwyo i fonitro eu perfformiad eu hunain ac i wella ar gyfer gwelliant parhaus. Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus pan fydd mwy o ddarparwyr, rhieni a phlant yn dweud wrthym fod safon y ddarpariaeth gofal plant ym Mwrdeistref Cyngor Wrecsam yn uchel.

Beth rydym wedi ei wneud – Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i gefnogi lleoliadau i wella eu safon. Rydym wedi cyllido 14 o fwrsariaethau hyfforddi er mwyn cefnogi ymarferwyr i gwblhau cymwysterau Lefel 4 neu Lefel 5 Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar neu Waith Chwarae lle nad ydynt yn cwrdd y meini prawf ar gyfer ffynonellau cyllido eraill. Rydym hefyd wedi comisiynu hyfforddiant pwrpasol er mwyn cefnogi safon y ddarpariaeth mewn lleoliad prysur yng nghanol y dref. Rydym yn parhau i redeg cyfres o weithdai byr o ganlyniad uniongyrchol i Asesiadau Gwaelodlin lleoliadau. Mae'r gweithdai hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi bodloni angen a nodwyd ar gyfer y sector. Rydym yn datblygu cyfres ehangach o weithdai er mwyn ychwanegu at y cynnig hwn. Mae lleoliadau sydd wedi cwblhau gweithdai Adroddiad Safon Gofal yn parhau i weithio gyda Swyddogion Gofal Plant er mwyn datblygu eu harfer a monitro eu perfformiad eu hunain.

Rydym yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac wedi ymestyn hyn ymhellach ar gyfer 2015 – 2016, gan gydweithio gyda thimau eraill o fewn yr Awdurdod Lleol a gyda'n partneriaid y tu allan i'r Awdurdod Lleol, fel Mudiad Meithrin a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam.

Mae Cyfeiriadur Hyfforddiant 2015 – 2016 wedi bod yn llwyddiannus gyda 1,658 o ymarferwyr ar draws Wrecsam yn mynd ar 67 cwrs hyfforddi.

Argymhelliad – Gofal Plant Hyblyg

Beth wnaethom ni ei ddweud - Mae rhieni yn parhau i ddweud wrthym eu bod eisiau ac angen mwy o hyblygrwydd yn y farchnad gofal plant. Maent eisiau cymryd mwy o sesiynau mewn ffyrdd hyblyg ac eisiau talu am eu gofal plant yn fwy hyblyg. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr gofal plant er mwyn eu cefnogi i ail-siapio sut maent yn darparu ac yn codi tâl am wasanaethau er mwyn cynnig hyblygrwydd i rieni ble mae'n bosib gwneud hynny. Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus pan fydd rhieni yn dweud wrthym eu bod yn fwy bodlon gyda'u gofal plant a phan fydd mwy o leoliadau yn dweud wrthym eu bod yn cynnig gwasanaethau gofal plant hyblyg.

Beth rydym wedi ei wneud - Mae CBSW wedi llwyddo i sicrhau cais gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau o dan faner menter Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid**.** Mae un prosiect o fewn y portffolio yn ddatblygiad dau gam ar gyfer gofal plant. Mae'r cam cyntaf yn ymwneud â datblygu adeilad canol tref nad yw'n cael ei ddefnyddio bellach i ddatblygu darpariaeth gofal plant arweiniol. Mae Gofal Plant 'Sprouts' yn feithrinfa ddysgu ac mae wedi creu 40 o leoedd gofal plant cofrestredig newydd, a hefyd wedi creu nifer o swyddi, prentisiaethau a hyfforddiaethau. Nod 'Sprouts' yw cwrdd y bwlch sydd yn y farchnad gofal dydd llawn bresennol am ddarpariaeth gofal plant sy'n agor yn gynnar yn y bore hyd at yn hwyrach fin nos yn ogystal ag ar ddyddiau Sadwrn. Bydd y lleoliad hefyd yn ceisio cwrdd anghenion gweithwyr sifftiau a'r rheiny sy'n gweithio oriau anarferol drwy gynnig strwythur prisio a thalu hyblyg.

Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg

Beth wnaethom ni ei ddweud – Mae gennym lefel dda o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhieni mewn rhai ardaloedd ond nid yw'r darlun cystal mewn ardaloedd eraill. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu cymorth cyfrwng Cymraeg ac yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn ein gweithlu gofal plant. Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus pan fydd mwy o'r gweithlu yn dweud fod ganddynt fwy o hyder wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd a phan fydd mwy o leoliadau yn darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd llai o rieni yn dweud wrthym y dylai fod mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Beth rydym wedi ei wneud – Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin er mwyn cefnogi'r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Rydym yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd ein grwpiau iaith Gymraeg sy'n fwyaf agored i niwed. Yng Nglyn Ceiriog, rydym wedi nodi y byddant yn parhau i weithredu gyda niferoedd isel am 1 – 2 mlynedd arall ond wedi hynny, mae'n debygol y bydd y niferoedd uchel sy'n mynychu'r Cylch Ti a Fi lleol yn rheolaidd yn trosglwyddo i'r grŵp Cylch Meithrin a bydd mewn sefyllfa mwy cynaliadwy. Er mwyn cefnogi'r grŵp hwn i barhau i weithredu, maent wedi derbyn cymorth dwys gan y Mudiad Meithrin yn ogystal â chymorth cyllidol gan Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Yn ddiweddar mae'r grŵp wedi symud i'r ysgol gynradd leol, ac mae bellach ar sylfaen gynaliadwy gyda nifer uchel o blant yn dod drwy'r grŵp Ti a Fi sy'n debygol o drosglwyddo i'r Cylch Meithrin a sesiynau Addysg Gynnar pan fyddant yn gymwys.

Rydym yn parhau i gysylltu i mewn i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn cydweithio er mwyn cynllunio ar gyfer lefelau cynyddol o alw am ein lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Argymhelliad – Gofal Plant y tu allan i'r ysgol gan gynnwys darpariaeth gwyliau

Beth wnaethom ni ddweud – Mae gormod o rieni yn dweud wrthym nad ydynt yn fodlon gyda'u gofal plant yn ystod y gwyliau o'i gymharu â'u gofal plant yn ystod y tymor. Rydym yn parhau i flaenoriaethu datblygiad ein gofal plant y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau er mwyn cefnogi rhieni i gael mynediad at y math o ofal plant y mae arnynt ei eisiau yn eu hardaloedd lleol. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu eu gwasanaeth er mwyn cwrdd gofynion y teuluoedd mewn modd hyblyg. Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus pan fydd bodlonrwydd rhieni yn cynyddu, yn enwedig o safbwynt gofal plant yn y gwyliau.

Beth rydym wedi ei wneud – Rydym yn gwybod fod y sector Gofal Plant y Tu Allan I'r Ysgol ac yn ystod y Gwyliau yn ffynnu yn Wrecsam a fod rhieni Wrecsam yn defnyddio mwy o ofal plant yn ystod y gwyliau gan fod ein lleoliadau yn gynyddol brysur. Mae Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn cwblhau 'Asesiadau Gwaelodlin' gyda holl ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a gwyliau a byddant yn gweithio i sefydlu pa leoliadau sydd angen bod yn paratoi ar gyfer ehangu yn y dyfodol. O ganlyniad i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Dîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam mae clwb gwyliau newydd wedi agor ym Mharc Caia ac ar hyn o bryd rydym yn cefnogi dau leoliad arall sy'n datblygu cynlluniau i agor darpariaeth gofal plant dros y gwyliau.

Rydym wedi cefnogi un Clwb Gwyliau i ailagor mewn ardal ddifreintiedig, sydd wedi dod â manteision i'r plant ond sydd hefyd yn cefnogi teuluoedd i weld fod dychwelyd i'r gwaith yn bosib, gan fod y seilwaith yno gyda gofal plant i'w cefnogi. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn monitro boddhad rhieni gyda gofal plant gwyliau drwy adborth.

Argymhelliad – Gwybodaeth

Beth wnaethom ni ei ddweud – Mae mwy o rieni yn gwybod sut i gael mynediad at wybodaeth am wasanaethau gofal plant a chefnogi teuluoedd**.** Fodd bynnag, nid yw pob rhiant yn gwybod sut i hawlio cymorth gyda'u costau gofal plant, lle i ddod o hyd i wybodaeth am drefniadau gofal plant amgen, neu sut i holi am gael gweithio'n hyblyg. Mae agenda Diwygio'r Gyfundrefn Les yn parhau i gael effaith ar deuluoedd ac mae rhieni yn parhau i fod eisiau mynediad at ffynonellau dibynadwy o wybodaeth a chymorth. Byddwn yn blaenoriaethu parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam drwy estyn allan er mwyn sicrhau fod mwy o deuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth safonol a'r cymorth y mae arnynt ei eisiau er mwyn gwneud y dewisiadau iawn. Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus pan fydd mwy o rieni yn nodi eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wybodaeth am gostau gofal plant, am drefniadau gofal plant hyblyg a sut i holi am gael gweithio'n hyblyg.

Beth rydym wedi ei wneud – mae ymholiadau i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cynyddu'r nifer o gyfleoedd Estyn Allan yr ydym yn eu mynychu er mwyn mynd a gwybodaeth allan at rieni a theuluoedd nad oes ganddynt o bosib fynediad at wybodaeth drwy'r swyddfa. Bydd ein Swyddogion Gofal Plant nawr yn cefnogi pob lleoliad gofal plant er mwyn sicrhau eu bod wedi eu diweddaru ac yn gwybod lle i gael gwybodaeth ar gyfer y rhieni maent yn gweithio gyda nhw, a fod anghenion gwybodaeth rhieni yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol mewn lleoliadau er mwyn sicrhau fod gwybodaeth a chymorth ar gael pan fydd rhieni ei angen. Mae Swyddogion Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam hefyd yn gwneud asesiad o anghenion gwybodaeth rhieni wrth gefnogi teuluoedd i gael mynediad at Leoedd a Gynorthwyir, er enghraifft. Mae hyn yn bwysig er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cymryd pob cyfle i fynd a gwybodaeth at rieni sydd eisoes yn cael gafael ar wasanaethau, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ddod atom ni. I gyd-fynd â hyn, rydym wedi llwyddo i gael cyllid pellach ar gyfer Swyddog Estyn Allan Dechrau'n Deg er mwyn parhau i gefnogi'r rhaglen wybodaeth mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

Cynllun Gweithredu 2017 i 2022

Bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael ei adeiladu o amgylch canlyniadau neu feysydd ffocws. Bydd aelodau Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn datblygu cynllun gweithredu blynyddol er mwyn manylu ar gyflawni'r canlyniadau, a bydd y rhain yn cael eu darparu a'u monitro drwy grwpiau Tasg a Gorffen. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael ei gwneud i Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ac yn nodi rhwystrau a wynebir.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:

Canlyniad Un: Mae gan CBSW ddigon o leoedd gofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru erbyn 2020

Canlyniad Dau: Mae darparwyr gofal plant yn ffit ac yn barod i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru erbyn mis Medi 2020

Canlyniad Tri: Mae cofrestr risg yn cael ei datblygu ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant
Canlyniad Pedwar: Mae gwybodaeth a marchnata gwell ar gael i deuluoedd ynglŷn â Gofal Plant, Hawliau Gofal Plant a manteision Gofal Plant
Canlyniad Pump: Mae prosesau Gwella Safon yn eu lle ar gyfer pob math o leoliad gofal plant
Canlyniad Chwech: Mae gan leoliadau gofal plant gynllun busnes clir, rhagolwg ariannol a chynllun gweithredu pwrpasol a ddatblygwyd o ddealltwriaeth o'u cryfderau
Canlyniad Saith: Mae gan bartneriaid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ddealltwriaeth o'r galw am ofal dydd cyfrwng Cymraeg (yn enwedig gofal dydd llawn)
Canlyniad Wyth: Mae darparwyr gofal plant yn ymwybodol o'u gallu i gefnogi teuluoedd plant anabl ac yn gwybod lle i gael cymorth effeithiol

I gael rhagor o wybodaeth
Am fwy o wybodaeth yr Asesiad O Ddigonolrwydd Gofal Plant cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ar 01978 292094 neu ar e-bost fis@wrexham.gov.uk